Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

Food Standards Scotland
For safe food and healthy eating

# Asesiad Strategol

## o Droseddau Bwyd 2024



UNED GENEDLAETHOL TROSEDDAU BWYD

Scottish Food Crime & Incidents Unit

Cynhyrchwyd y ddogfen hon ar y cyd rhwng yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) ac Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU).

# Cynnwys


**Rhagair** **4**

**Tebygolrwydd, Ansicrwydd a Hyder** **6**

**Crynodeb Gweithredol** **8**

**Cyflwyniad** **13**

4.1 Diben 14

4.2 Ffyononellau cudd-wybodaeth 14

**Asesiad Bygythiad** **16**

5.1 Ffactorau trosfwaol 17

5.2 Dwyn 24

5.3 Prosesu anghyfreithlon 26

5.4 Dargyfeirio gwastraff 30

5.5 Difwyno ac amnewid 32

5.6 Camgyfleu 38

5.7 Twyll dogfennau 43

5.8 Bygythiad y dyfodol 48

5.9 Argymhellion 51

5.10 Y camau nesaf 51

# 1

# Rhagair

1.1. Mae pedair blynedd ers i unedau troseddau bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS) gyhoeddi Asesiad Strategol Troseddau Bwyd 2020, a oedd yn amlinellu'r bygythiad a berir gan droseddau bwyd yn y DU.

1.2. Mae'r DU yn parhau i fod yn amgylchedd bwyd dilys. Fodd bynnag, dros y pedair blynedd diwethaf bu tarfu sylweddol ar gyflenwad bwyd y DU, gyda chyfleoedd newydd ar gyfer gweithgarwch troseddol. Mae'r asesiad hwn yn tynnu sylw at fygythiadau troseddau bwyd allweddol a chyfleoedd newydd sydd wedi dod i'r amlwg o fewn systemau bwyd o ganlyniad i ffactorau allanol. Ers ein hasesiad diwethaf, rydym hefyd wedi dysgu mwy am yr unigolion sy'n gysylltiedig â throseddau bwyd a'r rhan y maen nhw'n ei chwarae mewn perthynas â throseddau eraill, fel troseddau cyfundrefnol difrifol.

1.3. Mae mynd i'r afael â throseddau bwyd yn parhau i ofyn am gydweithrediad a rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn y meysydd rheoleiddio, gorfodi'r gyfraith yn ogystal â'r sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r gallu i ddefnyddio cudd-wybodaeth, data a phrofiad yr holl bartneriaid hyn yn parhau i fod yn hollbwysig er mwyn llunio'r asesiad hwn. Mae atal troseddau bwyd, drwy'r holl berthnasoedd hyn, yn parhau i fod yn egwyddor ganolog wrth fynd ati i greu amgylchedd gelyniaethus i droseddwyr bwyd yn y DU. Mae cyfrifoldeb busnesau i adnabod eu cadwyni cyflenwi, a rheoli risgiau twyll ynddynt, yn hollbwysig o hyd, ond gallwn gefnogi'r diwydiant gyda'r gwaith hwn.

1.4. Rydym wedi llwyddo i erlyn unigolion sy'n ymwneud â throseddau bwyd, ac mae mwy o achosion llys ar y gorwel. Mae ymchwiliadau cyfredol i droseddau bwyd a amheuir yn y gadwyn gyflenwi wedi amrywio o ran maint, themâu a chymhlethdod. Yn ddiweddar, rydym wedi gweld yr achosion hyn yn denu sylw yn y cyfryngau cenedlaethol a diddordeb y cyhoedd, sy'n profi pa mor bwysig yw ymateb gwrth-dwyll effeithiol a chydlynol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn bwyd diogel a dilys.




Andrew Quinn
Pennaeth yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd
Asiantaeth Safonau Bwyd




Ron McNaughton
Pennaeth Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban
Safonau Bwyd yr Alban

# 2

# Tebygolrwydd, Ansicrwydd a Hyder

2.1. Trwy gydol yr Asesiad Strategol o Droseddau Bwyd 2024, defnyddiwyd y 'ffon fesur tebygolrwydd' (fel y'i diffinnir gan y Pennaeth Proffesiynol Asesu Gwybodaeth)[1] i sicrhau cysondeb ar draws y gwahanol fygythiadau a themâu wrth asesu tebygolrwydd. Dyma ddull cydnabyddedig a ddefnyddir gan asiantaethau llywodraeth y DU. Mae'r canlynol yn diffinio'r ystodau tebygolrwydd a ystyrir pan ddefnyddir iaith o'r fath:




2.2. Gwneir y dyfarniadau dadansoddol yn yr adroddiad hwn gyda hyder cymedrol oni nodir yn wahanol yn y testun. Nodir y tair lefel o hyder isod.

| Lefel hyder | Disgrifiad |
|---|---|
| **Uchel** | Pan fydd gwybodaeth o ansawdd da neu dystiolaeth ategol o ystod o wahanol ffynonellau, neu mewn sefyllfaoedd lle mae'n bosib llunio barn glir |
| **Cymedrol** | Pan fydd y dystiolaeth yn agored i ddehongliadau amrywiol neu'n gredadwy ac yn debygol ond yn brin o ran cadarnhad |
| **Isel** | Pan fo'r gwybodaeth yn brin neu'n ddarniog iawn, neu pan fydd ffynonellau yn amheus o ran eu dibynadwyedd |

1 Mae'r Pennaeth Proffesiynol Asesu Gwybodaeth wedi'i seilio yn y Sefydliad Cyd-wybodaeth yn Swyddfa'r Cabinet.

# 3

# Crynodeb Gweithredol

3.1. Mae'r Asesiad Strategol yn helpu i ddiogelu defnyddwyr ac enw da diwydiant bwyd a diod y DU drwy'r amcanion strategol canlynol:

- gosod asesiad cyfredol o'r bygythiadau i system fwyd y DU yn sgil troseddau bwyd
- nodi cyfleoedd i ganfod troseddau bwyd, mynd i'r afael â nhw a'u hatal
- gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol, rheoleiddwyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith
- rhybuddio sector bwyd a diod y DU am fygythiad troseddau bwyd a sut y gallai effeithio ar eu cadwyn gyflenwi

3.2. Byddwn yn defnyddio'r asesiad hwn i lunio blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod, i ddatblygu a darparu strategaethau i wrthsefyll y bygythiadau mwyaf niweidiol, ac i gasglu cudd-wybodaeth well lle mae bylchau yn ein dealltwriaeth.

3.3. Mae'r dirwedd troseddau bwyd y DU yn gymhleth, a gwelir methodolegau troseddol soffistigedig. Mae cynnal dealltwriaeth o lefelau bygythiad sy'n newid a gwendidau sy'n dod i'r amlwg yn heriol, ac yn broses barhaus.

3.4. Mae'n dal yn debygol y bydd y rheiny sy'n cyflawni troseddau bwyd yn y DU yn gallu gwneud hynny oherwydd rolau a chyfrifoldebau cyfreithlon sydd ganddynt mewn agweddau ar y gadwyn fwyd. Mae'r rhain yn caniatáu iddynt ddefnyddio gwybodaeth fewnol i fanteisio ar wendidau systemau wrth gyflawni a chuddio troseddau bwyd. Mae rhai unigolion sy'n cyflawni troseddau bwyd hefyd yn ymwneud â throseddoldeb anghysylltiedig, fel cyffuriau a thrais.

3.5. Rydym hefyd yn parhau i nodi bygythiadau i gadwyn cyflenwi bwyd y DU o ganlyniad i weithgarwch anghyfreithlon y tu allan i'r DU, ochr yn ochr â throseddoldeb domestig.

3.6. Mae'r bygythiadau a ddisgrifir yn yr asesiad hwn yn debyg iawn i'r hyn a nodwyd yn 2020[2]. Fodd bynnag, rydym wedi nodi themâu newydd sy'n gysylltiedig â ffactorau cyfoes, fel amodau economaidd y DU, digwyddiadau geowleidyddol a newidiadau i fframweithiau cyfreithiol sy'n llywodraethu symudiadau bwyd ar draws ffiniau'r DU.

3.7. Rydym yn parhau i weld saith categori allweddol o droseddau bwyd, sef: camgyfleu, difwyno, amnewid, prosesu anghyfreithlon, dargyfeirio gwastraff, dwyn a thwyll dogfennau. Bydd y rhain yn cael eu harchwilio'n fanylach yn yr asesiad hwn.

2 Asesiad Strategol Troseddau Bwyd 2020 yr ASB ac FSS

3.8. Wrth adrodd ar y fersiwn hon, a chan gyfeirio at y dulliau uchod, rydym yn gweld pedair thema amlwg – sef mathau o droseddau bwyd sy'n gysylltiedig â rhai nwyddau – yn ein darlun cudd-wybodaeth:

- **Camgyfleu** cig coch a dofednod, o ran statws, tarddiad neu'r dyddiad sy'n nodi am ba hyd y bydd yn para
- **Dargyfeirio gwastraff**, gan gynnwys troseddau trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP) o fewn cadwyni cyflenwi cig coch a dofednod
- Gwasanaethu galw defnyddwyr am gynhyrchion a ffefrir yn ddiwylliannol trwy ladd, **prosesu** neu fewnforio cig oen a phorc yn **anghyfreithlon**
- Heriau dilysrwydd yn y cadwyni cyflenwi nwyddau sy'n peri risgiau twyll nodedig neu barhaus i ddefnyddwyr y DU sy'n deillio o **ddifwyno** a **chamgyfleu** i fyny'r gadwyn fwyd a thramor

3.9. Mae newidiadau amlwg i'w gweld o gymharu â'r asesiad yn 2020, gan gynnwys gostyngiad sylweddol yn nifer y pysgod cregyn a gasglwyd yn anghyfreithlon sy'n cyrraedd cadwyn fwyd y DU (mae hyn yn debygol o fod oherwydd newidiadau i allforion ar ôl ymadael â'r UE), a'r cynnydd yn argaeledd eang o fewnforion anghyfreithlon mewn siopau manwerthu yn y DU, y cyfeirir atynt fel 'nwyddau'r farchnad lwyd'[3].

3.10. Yn dilyn sylwadau a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gartref, mae 2,4-dinitroffenol (DNP) bellach wedi'i ddosbarthu fel gwenwyn. Mae'r ailddosbarthiad yn 2023 yn golygu mai partneriaid plismona sy'n gyfrifol nawr am ymateb i'r bygythiad hwn. Mae'n parhau i achosi niwed i'r cyhoedd, ac roedd yn gysylltiedig ag un farwolaeth yn y DU yn 2023.

3.11. Mae gwasanaethu galw defnyddwyr am gynhyrchion penodol a ffefrir yn ddiwylliannol, sy'n ymwneud yn bennaf â chig, trwy gynhyrchu domestig anghyfreithlon a thrwy fewnforio, yn parhau i fod yn thema amlwg sydd i'w gweld ar ffurf wahanol.

3.12. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd partneriaethau a chydweithio wrth sefydlu, cynnal a gwella llifoedd cudd-wybodaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried costau byw a chostau cynhyrchu bwyd uwch. Rydym yn cydnabod yr heriau y gallai ein partneriaid mewn awdurdodau lleol fod yn eu hwynebu ar hyn o bryd, ac yn y dyfodol, wrth gynnal gwaith rheoleiddio mewn busnesau bwyd ac wrth ymateb i risgiau twyll bwyd.

3.13. Yn ystod y 12 i 24 mis nesaf, byddwn hefyd yn parhau i fonitro'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â threfniadau newydd ar y ffin.

---

3 Mae'r term 'Marchnad Lwyd' yn disgrifio masnachu cynhyrchion trwy sianeli cyflenwi a dosbarthu nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan y gweithgynhyrchwr neu ddeiliad y nod masnach.

**Asesiad o'r bygythiadau – uchafbwyntiau**

| Nwydd | Prif themâu |
|---|---|
| **Porc** | Mae cudd-wybodaeth yn tynnu sylw at achosion o gamgyfleu rhinweddau premiwm, gyda lefelau is o adrodd yn arwydd o fygythiadau o gamgyfleu dyddiad a gwlad tarddiad, ac achosion o dwyn da byw. |
| **Cig eidion** | Gwelir bygythiad sy'n dod i'r amlwg wrth gyflwyno gwartheg i'r gadwyn fwyd yn dwyllodrus, gyda thwyll dogfennau yn ffactor sy'n galluogi hyn i ddigwydd. |
| **Cig oen** | Mae adroddiadau am dda byw yn cael eu dwyn yn parhau, gyda bygythiadau ehangach o ran cynhyrchu a dosbarthu 'smokies' anghyfreithlon ar lefel genedlaethol, a nodwyd bod Grŵp Troseddau Cyfundrefnol yn rhan o'r gweithgarwch hwn. Mae difwyno ac amnewid yn parhau i gael eu nodi. |
| **Cyw iâr** | Mae adroddiadau'n amlygu sawl math gwahanol o droseddau camgyfleu, gydag adrodd cymedrol ar ddargyfeirio gwastraff. |
| **Sgil-gynhyrchion anifeiliaid** | Ceir bygythiad sylweddol wrth gynhyrchu a thrin bwyd anifeiliaid anwes amrwd a gynhyrchir o sgil-gynhyrchion anifeiliaid, a hynny heb drwydded a heb gymeradwyaeth. |
| **Pysgod cregyn** | Nodir gostyngiad sylweddol yn nifer yr adroddiadau am gasglu â llaw anghyfreithlon ar y tir, ynghyd â gostyngiad cysylltiedig mewn adroddiadau am dwyll dogfennau, camgyfleu ac amnewid. |
| **Pysgod** | Mae amnewid pysgod gwyn yn parhau ar lefelau isel, gan gynnwys yn y gwasanaeth bwyd, tra bod bygythiad camgyfleu gwlad tarddiad pysgod gwyn Rwsia hefyd yn cael ei nodi. |
| **Alcohol** | Adroddiadau am ffugio sy'n dominyddu'r sector alcohol ar draws ystod ehangach o gynhyrchion. Mae adroddiadau am amnewid gwirodydd yn bennaf yn nodi bygythiadau lefel isel ac ynysig wedi'u cyfyngu i'r sector lletygarwch. |
| **Cynhyrchion cynaliadwy a honiadau yn eu cylch** | Cyfyngwyd adroddiadau i fygythiad lefel isel parhaus o ddefnydd achlysurol a di-sail o derminoleg a honiadau organig, ond mae bygythiadau yn y dyfodol yn y maes hwn yn parhau i fod yn bwysig. |
| **Cynhyrchion peryglus nad ydynt yn fwyd** | Er bod adroddiadau'n parhau i ddangos tystiolaeth o fygythiadau ar-lein ar gyfer DNP, yr heddlu sy'n gyfrifol am weithredu erbyn hyn. Nodir bod llai o achosion o hysbysebu a gwerthu Hydoddiant Mwynol Gwyrthiol (MMS) ar y we i'r cyhoedd. |
| **Cadwyni cyflenwi risg uchel** | Mae adroddiadau'n nodi materion dilysrwydd posib i fyny'r gadwyn fwyd sy'n gofyn am wyliadwriaeth ddomestig ar gyfer olew olewydd, mêl a pherlysiau a sbeisys, a hynny hyd yn oed lle nad oes llawer o dystiolaeth am gynnyrch annilys ar farchnadoedd y DU. |

| Thema drawsbynciol | Trosolwg |
|---|---|
| **Galw cymunedol** | Mewnforio anghyfreithlon sy'n dominyddu'r adroddiadau ar sut y caiff galwadau am gynhyrchion a ffefrir yn ddiwylliannol eu gwasanaethu. Mae'r bygythiad yn ymestyn i fewnforio cynhyrchion porc yn anghyfreithlon o wledydd lle mae Clwy Affricanaidd y Moch yn bresennol, a lle mae llwybrau mewnforio cyfreithlon, felly, yn gyfyngedig. Mae adroddiadau'n dangos bod dulliau mwy datblygedig o dwyll yn dod i'r amlwg mewn ymateb i reolaethau. |
| **Mewnforion anghyfreithlon** | Mae mewnforio anghyfreithlon wedi'i nodi mewn perthynas ag ystod eang o gynhyrchion, sy'n peri lefelau amrywiol o niwed i ddefnyddwyr. Mae nwyddau'r farchnad lwyd sy'n cyrraedd marchnad y DU yn fater o bwys i'r ASB. Mae'r graddau y nodir bod y gweithgarwch hwn yn cynnwys ymddygiadau twyllodrus yn gyfyngedig ar hyn o bryd. |
| **Gwasanaeth bwyd** | Mae adroddiadau'n cwmpasu sbectrwm eang o fathau o droseddau a nwyddau. Mae canlyniadau samplu yn tynnu sylw at wendidau mewn perthynas â bwyd tecawê ac amnewid proteinau â blas neu broteinau wedi'u prosesu'n helaeth. Mae gennym fylchau yn y gudd-wybodaeth o hyd ynghylch gweithgarwch o fewn cadwyni cyflenwi gwasanaethau bwyd. |
| **Broceriaid, masnachwyr, ac asiantau** | Ceir bylchau sylweddol o hyd yn y ddealltwriaeth o rôl gymhleth broceriaid, masnachwyr ac asiantau mewn troseddau bwyd. |

# 4

# Cyflwyniad

## 4.1 Diben

4.1.1 Mae Asesiad Strategol Troseddau Bwyd y DU yn asesiad ar y cyd, a gynhyrchir gan Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yn yr ASB ac Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU) yn FSS.

4.1.2 Y cyfnod adrodd yw 1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2023, er bod adroddiadau o'r tu allan i'r cyfnod hwn yn cael eu defnyddio lle byddant yn darparu cyd-destun ychwanegol.

4.1.3 Diben y ddogfen hon yw:

- tynnu sylw at dueddiadau troseddau bwyd
- adolygu sut mae ein dealltwriaeth o fygythiadau troseddau bwyd hysbys wedi newid, a nodi lle mae'r bygythiadau eu hunain wedi newid
- ein galluogi i flaenoriaethu ein hymateb i'r materion troseddau bwyd mwyaf niweidiol, a llunio argymhellion strategol
- amlinellu'r bylchau mwyaf sylweddol yn ein dealltwriaeth o droseddau bwyd

4.1.4 Rydym yn diffinio troseddau bwyd fel twyll difrifol a throseddoldeb cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd. Mae hyn hefyd yn cynnwys diod a bwyd anifeiliaid.

## 4.2 Ffynonellau cudd-wybodaeth

4.2.1 Mae'r asesiad hwn yn defnyddio gwybodaeth a chudd-wybodaeth sy'n dod i law gan ystod o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, cyrff gorfodi cyfraith a rheoleiddio, y rheiny sy'n gweithio yn y sectorau bwyd a diod, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, a gwybodaeth a ddarperir i ni gan aelodau'r cyhoedd a chwythwyr chwiban.

4.2.2 I ategu ein data sylfaenol, rhannwyd gofynion cudd-wybodaeth gyda phartneriaid asiantaethau allweddol, llywodraeth ehangach, y diwydiant ac awdurdodau lleol.

4.2.3 Mae'r asesiad hwn hefyd yn cyfeirio at setiau data o raglen Samplu Gwyliadwriaeth Manwerthu'r ASB[4], Cronfa Ddata Samplu Bwyd yr Alban (SFSD)[5], canlyniadau samplu eraill, a'r data sydd ar gael i ni gan Rwydwaith Cudd-wybodaeth y Diwydiant Bwyd (FIIN). Rydym yn cydnabod pwysigrwydd samplu a phrofion dilysrwydd er mwyn darparu data, a phwysigrwydd defnyddio data helaeth ydiwydiant fel gwrthbwynt i faterion a amlygir gan yr hyn sy'n aml yn weithgarwch rheoleiddio mwy targededig.

4 Rhaglen Samplu Gwyliadwriaeth | Asiantaeth Safonau Bwyd
5 Cronfa Ddata Samplu Bwyd yr Alban (SFSD) | Safonau Bwyd yr Alban

4.2.4 Mae ffynonellau data eraill wedi cynnwys signalau ffynhonnell agored, ymchwil gwyddorau cymdeithasol i agweddau'r cyhoedd ac arbenigedd y diwydiant a gafwyd trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid.

4.2.5 Er ein bod yn nodi cyfranogiad y diwydiant yn yr asesiad hwn trwy fewnwelediadau arbenigol a data samplu, rydym yn cydnabod bod angen parhau i weithio i gynyddu faint o wybodaeth y mae busnesau bwyd a diod yn ei rhannu gyda ni.

5

# Asesiad o’r bygythiadau

## 5.1 Ffactorau trosfwaol

5.1.1 Rydym yn nodi pedwar prif ffactor yn yr asesiad hwn sydd wedi dylanwadu ar y dirwedd troseddau bwyd:

- pwysau economaidd sy'n effeithio ar fusnesau a defnyddwyr, yn ogystal â tharfu ar y gadwyn gyflenwi gan ddigwyddiadau byd-eang
- newidiadau a heriau sy'n gysylltiedig â bwydydd wedi'u mewnforio a threfniadau ar y ffin
- heriau o ran adnoddau awdurdodau lleol
- newidiadau yn ein dealltwriaeth o broffiliau, gweithgarwch a rhwydweithiau troseddwyr bwyd

## Ffactorau economaidd, cadwyni cyflenwi a digwyddiadau byd-eang

5.1.2 Mae cymhelliant ariannol i weithredwyr cyfreithlon gymryd rhan mewn arferion anghyfreithlon, efallai ochr yn ochr â gweithrediadau cyfreithlon, oherwydd costau cynyddol ar gyfer gwaredu gwastraff bwyd, cynhwysion amrwd, gweithgynhyrchu, ynni ar gyfer prosesau cynhyrchu a chludo. Er bod rhai adroddiadau gan y diwydiant yn nodi bod pwysau o ran costau'n lleihau, cynyddodd cyfanswm y costau 12.8% yn 2023[6]. Mae ychydig o gudd-wybodaeth yn awgrymu y ceir ymddygiad nad yw'n cydymffurfio o fewn busnesau bwyd y DU. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r sefyllfa economaidd, ond mae maint y broblem hon a chryfder unrhyw gysylltiad achosol yn anodd ei fesur yn gywir.

5.1.3 Gellir cysylltu costau busnesau cynyddol, y gall rhai ohonynt gael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr, â digwyddiadau byd-eang fel y gwrthdaro geowleidyddol presennol yn Wcráin, ac yn fwy diweddar, ymosodiadau targededig gwrthryfelwyr Yemeni Houthi ar longau cargo'r Môr Coch a oedd yn cludo nwyddau gan gynnwys bwyd[7]. Mae'r ffactorau hyn hefyd wedi effeithio ar natur a maint y llif masnach ac wedi amharu ar gyflenwad, neu fynediad i'r farchnad, ar gyfer cynhyrchion fel olew blodau'r haul, grawn a physgod gwyn ac amrywiaeth o nwyddau fel sbeisys a ffrwythau egsotig a fyddai fel arfer yn cyrraedd y DU trwy Gamlas Suez.

6 Adroddiad ar Gyflwr y Diwydiant – Ffederasiwn Bwyd a Diod, Ch4 2023
7 Ymosodiadau ar longau'r Môr Coch yn arwain at chwyddiant bwyd 'anochel' | Newyddion | The Grocer

5.1.4 Gall risgiau troseddau bwyd sy'n gysylltiedig â'r digwyddiadau hyn fod yn gysylltiedig â chyfyngiadau ar fasnachu cynhyrchion sy'n gysylltiedig â Rwsia, fel pysgod gwyn (lle gellir cuddio'r wlad tarddiad), neu ddifwyno neu gamgyfleu olewau bwytadwy. Mae'r diwydiant a rheoleiddwyr wedi bod yn cadw llygad barcud ar y risgiau hyn, ond nid ydym wedi nodi tystiolaeth bendant bod troseddau bwyd yn y DU yn cynyddu o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn.

5.1.5 Ceir pryder y gellid gweld cynnydd mewn galw gan ddefnyddwyr am gynhyrchion am bris cystadleuol, hyd yn oed os yw tarddiad y cynhyrchion hynny yn amheus neu'n anhysbys. Dywedodd 88% o'r bobl a holwyd ym mis Mehefin 2024 eu bod yn poeni am brisiau bwyd. Dywedodd 49% o'r ymatebwyr i'r un arolwg eu bod wedi dewis nwyddau rhatach, yn hytrach na chynhyrchion brand, er mwyn arbed arian[8].

## Trefniadau ar y ffin a bwyd wedi'i fewnforio

5.1.6 Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau gan awdurdodau lleol am sbectrwm eang o fewnforion anghyfreithlon – rhai sy'n dod o anifeiliaid a rhai nad ydynt yn dod o anifeiliaid – gydag alcohol, melysion, diodydd meddal a chynhyrchion cig nad ydynt yn cydymffurfio yn cael eu gwerthu mewn siopau cyfleustra yn y DU. Ymhlith y materion a nodwyd mae labelu nad yw'n cydymffurfio (gan gynnwys labelu alergenau) a chynhyrchion yn cynnwys cynhwysion nas caniateir. Mae ymateb i'r materion hyn, sydd â goblygiadau diogelwch bwyd, yn rhoi mwy o bwysau ar adnoddau awdurdodau lleol.

5.1.7 Mae mewnforio cynhyrchion porc yn anghyfreithlon yn fygythiad parhaus i iechyd anifeiliaid y DU ac i hyfywedd y sector moch pan fyddant yn cyrraedd o ranbarthau lle mae rheolaethau ar allforio cig ar waith i atal lledaeniad Clwy Affricanaidd y Moch. Erbyn hyn, mae cudd-wybodaeth yn dangos ei bod yn debygol iawn bod dulliau mewnforio yn esblygu i gynnwys twyll dogfennau a nodau iechyd ffug er mwyn osgoi rheolaethau.

5.1.8 Mae'r Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau (BTOM) a Fframwaith Windsor hefyd wedi cael eu rhoi ar waith yn raddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae Fframwaith Windsor yn nodi trefniadau ar gyfer symud nwyddau i mewn ac allan o Ogledd Iwerddon, yn ogystal â symud nwyddau o fewn y DU. Mae'r Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau yn nodi'r model ar gyfer mewnforion i Brydain Fawr, a hynny ar gyfer nwyddau o'r UE a nwyddau o weddill y byd. Mae'n gyson â'r holl ymrwymiadau a

8 Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr yr ASB, Ebrill - Mehefin 2024

nodir yn Fframwaith Windsor, gan gynnwys parhau i warantu mynediad dirwystr i farchnad Prydain Fawr ar gyfer Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon.

5.1.9 Mae cyflwyno BTOM wedi newid yn sylweddol y broses ar y ffin ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cyrraedd y DU o'r UE. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys mabwysiadu rheolaethau swyddogol yn seiliedig ar risg ar gyfer nwyddau sydd, yn ôl y gweithredwr, yn peri risg uchel, risg ganolig neu risg isel, a hynny yn unol â chategori risg y DU. Mae'r rheolau hyn, sydd hefyd yn gymwys i fewnforion o weddill y byd, yn destun gwaith monitro parhaus er mwyn nodi unrhyw risgiau sy'n deillio o'u cyflwyno.

## Adnoddau awdurdodau lleol

5.1.10 Yn adroddiad 'Ein Bwyd 2022', dangosodd dadansoddiad yr ASB o staff awdurdodau lleol fod tua 14% yn llai o swyddi diogelwch bwyd yn cael eu hariannu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2022/23 o gymharu â 2010/11, gyda thros 13% ohonynt yn wag. Nododd yr adroddiad hefyd ostyngiad o 45.1% mewn swyddi swyddogion Safonau Masnach a ariennir rhwng 2011/12 a 2021/22 yn y tair gwlad. Yn yr Alban, dangosodd y dadansoddiad fod 25% yn llai o swyddi swyddogion cyfraith bwyd yn 2021/22 nag yn 2016/17[9]. Nododd 21 o'r 55 o ymatebion i holiadur yr ASB ar gyfer yr asesiad hwn bryderon ynghylch adnoddau. Nododd adroddiad i Fwrdd yr ASB a oedd yn adolygu perfformiad ac adnoddau awdurdodau lleol faterion tebyg ddiwedd 2023[10].

5.1.11 Rydym yn cydnabod bod y pwysau hyn yn debygol iawn o'i gwneud yn anoddach i awdurdodau flaenoriaethu'r gwaith o nodi a mynd i'r afael â throseddau bwyd, a bydd yn bwysig i'n dull parhaus o ymgysylltu adlewyrchu hyn, yn ogystal â helpu i atal twyll bwyd.

## Deall troseddwyr bwyd

5.1.12 Rydym bellach yn gwybod mwy am y mathau o unigolion ac endidau sy'n gysylltiedig â'r troseddau bwyd sy'n destun ein hymchwiliadau. Mae hyn wedi arwain at newid bychan yn ein hasesiad yn y maes hwn.

5.1.13 Cyn 2020, roedd bwlch yn y gudd-wybodaeth o ran grwpiau troseddol cyfundrefnol ac unigolion a oedd yn gweithredu o fewn y diwydiant bwyd a meysydd troseddu eraill, fel cyflenwi cyffuriau. Mae'r gwaith a wnaed ar gyfer yr asesiad hwn wedi helpu i fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

9 Ein Bwyd 2022: Crynodeb Gweithredol | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
10 Adolygiad Blynyddol yr ASB o Berfformiad Awdurdodau Lleol

5.1.14 Mae rhai unigolion sy'n ymwneud â throseddau bwyd hefyd wedi'u cysylltu â throseddau difrifol eraill. Rydym hefyd yn tybio ei bod yn debygol bod unigolion o'r fath wedi canfod gwendidau o ran cynhyrchu a chyflenwi bwyd a chymryd y cyfle i fanteisio ar y rhain er budd ariannol.

| Unigolyn yn destun ymchwiliad Twyll Dosbarthu Ewropeaidd | Unigolyn yn destun ymholiadau ynghylch casglu pysgod cregyn yn anghyfreithlon | Contractwr gwastraff yn twyllo busnes bwyd mawr | Unigolyn yn destun ymholiadau ynghylch alcohol ffug |
|---|---|---|---|
| Euogfarn am ymosod a chysylltiadau hanesyddol â chyflenwi cyffuriau | Hanes troseddol amrywiol gan gynnwys trais, cyffuriau ac arfau ymosodol | Hanes troseddol nodedig yn ymwneud â chyffuriau | Cysylltiadau â chyflenwi cyffuriau, gwyngalchu arian a sigaréts ffug |

**Ffigur 1 – Enghreifftiau o droseddwyr bwyd a'u cysylltiadau troseddol ehangach**

5.1.15 Er ei bod yn hysbys bod grwpiau troseddol yn defnyddio llwythi bwyd fel ffordd o guddio eu gweithgarwch cludo cyffuriau[11] a mewnforio tybaco anghyfreithlon[12], mae'n bosib bod defnyddio bwyd yn y modd hwn yn darparu pwynt cyswllt cychwynnol a mynediad i rai troseddwyr at y sector bwyd a chadwyni cyflenwi bwyd, lle caiff troseddau bwyd proffidiol, risg is, â chosb is eu hystyried wedyn. Mae'n debygol mewn achosion o'r fath y bydd rhwydweithiau troseddol sy'n arallgyfeirio i droseddau bwyd yn defnyddio unigolion sydd wedi'u lleoli'n gyfreithlon o fewn y gadwyn fwyd i alluogi a hwyluso troseddau bwyd. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar nifer bach o enghreifftiau, ac felly ni ellir bod yn hyderus yn y ddamcaniaeth hon.

5.1.16 Yn 2023, mapiodd yr ASB ddau Grŵp Troseddu Cyfundrefnol (OCGs) sy'n gweithredu o fewn tirwedd bwyd y DU, a oedd yn cynnal gweithgareddau yn ymwneud â thwyll, dwyn, cynllwynio a throseddau gwyngalchu arian. At hynny, gofynnodd yr ASB am ddata OCG a'i adolygu ar gyfer yr achlysuron hynny lle roedd troseddoldeb yn ymwneud â bwyd, ac rydym wedi nodi grwpiau eraill sy'n ymwneud â gweithgarwch a allai fod yn gyfystyr â throseddau bwyd, yn ogystal ag OCGs sy'n ymwneud â throseddau bwyd a busnesau bwyd. Mae troseddau o'r fath wedi cynnwys dwyn, lladd anifeiliaid yn anghyfreithlon a chamgyfleu dyddiad.

11 'Gang cyffuriau rhyngwladol yn mewnforio cocên a heroin gwerth miliynau wedi'u cuddio mewn paledi ffrwythau, yn ôl y llys – LancsLive

12 Ffrwythau sy'n pydru'n cael eu defnyddio i guddio sigaréts wedi'u smyglo – BBC News

5.1.17 Mae FSS yn aelod o'r Bwrdd Tasg a Chyflawni Amlasiantaeth (MATDB), sy'n dwyn ynghyd holl brif asiantaethau gorfodi'r gyfraith sy'n gweithredu yn yr Alban, a Swyddfa'r Goron. Y nod yw rhannu gwybodaeth ac adnoddau i dargedu ac erlyn Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOC) yn yr Alban. Trwy gymryd rhan yn y MATDB, mae FSS yn darparu mewnbwn ar droseddau bwyd i Asesiad Bygythiad Strategol Amlsiantaeth yr Alban[13]. Maent yn cydweithio er mwyn cyflwyno darlun cynhwysfawr o raddfa a natur y bygythiad gan SOC, gwendidau sylweddol a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg yn yr Alban.

5.1.18 Er bod aml-droseddoldeb i'w gweld, ein safbwynt ni o hyd yw nad yw'r mwyafrif o fusnesau bwyd sy'n gysylltiedig â throseddau bwyd yn cyflawni troseddau eraill. Serch hynny, rydym yn canfod bod trin y mentrau hyn, lle bo'n haeddiannol, fel Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol, yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiad a berir ganddynt.

5.1.19 Mae rheoli Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol yn cynnwys nodi cyfleoedd i darfu ar grwpiau hysbys, adolygu'r bygythiad a achosir gan y grwpiau, rhannu ac adolygu gwybodaeth yn genedlaethol am unigolion hysbys, gyda phartneriaid ym maes gorfodi'r gyfraith a chodi ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid, y cyhoedd a diwydiant o'r troseddau a gyflawnwyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn gamau amddiffynnol a pharatoadol sy'n creu amgylchedd mwy gelyniaethus yn y DU ar gyfer Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol sy'n cyflawni troseddau bwyd.

## Saith math o droseddau bwyd

5.1.20 Er bod saith dull cydnabyddedig o droseddau bwyd o fewn adrodd, mae twyll dogfennau yn bennaf yn cael ei gyflwyno fel gweithgaredd galluogi ar gyfer un neu fwy o'r dulliau eraill.

13 Asesiad Bygythiad Strategol Amlasiantaeth yr Alban




**Ffigur 2 – Y saith math o droseddau bwyd**

5.1.21 Ers Asesiad 2020, troseddau ynghylch dargyfeirio gwastraff sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf o ran lefel y bygythiad. Mae'r troseddau hyn yn amlygu llif sgil-gynhyrchion anifeiliaid a nwyddau i sefydliadau nad ydynt wedi'u cymeradwyo neu sydd heb drwydded ar gyfer cynhyrchu a chyflenwi bwyd anifeiliaid anwes amrwd. Mae cynhyrchion targededig sy'n gysylltiedig â difwyno, amnewid a chamgyfleu yn amrywio o gigoedd gwerth uchel i lysiau, perlysiau a sbeisys ac alcohol.

5.1.22 Gall **dwyn** a gweithgareddau cysylltiedig ddigwydd ar hyd y gadwyn cyflenwi bwyd lle caiff deunyddiau crai gwerth uchel neu gynhyrchion gorffenedig sy'n addas i'w hailwerthu ar unwaith eu dwyn wrth iddynt gael eu cludo, trwy Dwyll Dosbarthu Ewropeaidd[14] o safleoedd manwerthu. Gall da byw, a fwriedir ar gyfer y gadwyn fwyd, hefyd cael eu dwyn, a hynny gyda throseddau prosesu anghyfreithlon cysylltiedig, neu hebddynt. Yr heddlu yw'r prif gorff gorfodi'r gyfraith o hyd i ymateb i achosion o ddwyn yr adroddir amdanynt.

5.1.23 Mae **dargyfeirio gwastraff** fel arfer yn digwydd tua diwedd cadwyni cynhyrchu ond, lle mae'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes amrwd, mae'n rhagflaenydd i brosesu anghyfreithlon. Yn ogystal ag arwain at gamgyfleu ansawdd, gall dargyfeirio gwastraff hefyd arwain at addasu a chamgyfleu dyddiadau para bwyd anawdurdodedig.


14 Twyll Dosbarthu | Action Fraud

5.1.24 Mae **amnewid** a **difwyno** yn effeithio ar gynhyrchion cyn y pwynt gwerthu. Gall hyn ddigwydd yn agos at y pwynt cynhyrchu cynradd (gan gynnwys dramor), tra bod y cynnyrch dan reolaeth perchennog neu broseswr canolraddol, neu yn y sefydliad manwerthu neu arlwyo a fydd yn cyflenwi'r cynnyrch i'r cyhoedd.

5.1.25 **Camgyfleu** yw'r agwedd olaf ac amlycaf ar anonestrwydd gan weithredwr busnes bwyd, sy'n golygu cyflenwi cynnyrch is-safonol i yn ddiarwybod iddynt, gan gynnwys busnes arall. Yn y pen draw, dyma beth sy'n cuddio diffygion anweledig cynnyrch. Gan fod bron bob trosedd bwyd yn cynnwys elfen o gamgyfleu , efallai nad yw'n syndod mai dyma'r agwedd y mae gan yr Unedau'r fwyaf o wybodaeth yn ei chylch.

5.1.26 Er ei bod yn gyffredin, nid oes angen camgyfleu bob tro er mwyn elwa ar droseddau bwyd. Gall defnyddiwr ddewis prynu cynnyrch anghyfreithlon os yw'r cynnyrch, neu'r pris, yn ddigon deniadol – a maddau unrhyw ddiffygion ansawdd oherwydd y pris.

5.1.27 Mae **twyll dogfennau** yn llinyn cyffredin trwy sawl agwedd ar droseddu bwyd, a ddefnyddir i gyfreithloni cynhyrchion anghyfreithlon o ganlyniad i ddwyn, prosesau anghyfreithlon neu'r rhai sy'n cael eu gwerthu am bris premiwm ar ôl difwyno neu amnewid nwyddau is-safonol.




**Ffigur 3 – Diagram proses o'r mathau o droseddau bwyd**

5.1.28 Mae pob adran o’r bennod hon yn ystyried yr hyn sy’n gyffredin rhwng y gwahanol dechnegau a drafodir, ynghyd ag awgrymu lle ystyrir bod y risg ym mhob maes yn fwyaf difrifol.

5.1.29 Nid yw’r bennod hon yn cynnwys rhestr hollgynhwysfawr o’r holl faterion sy’n cael eu cynnwys yn ein cudd-wybodaeth. Yn hytrach, mae’n asesiad o’r themâu amlycaf yn y dirwedd troseddau bwyd.

5.1.30 Er bod technegau troseddau bwyd yn ddefnyddiol ar gyfer nodi a chodio gweithgarwch, nodwn ei bod yn anghyffredin i droseddau bwyd gynnwys un o’r technegau yn unig.

# 5.2 Dwyn

**Dwyn:**
Cymryd meddiant o gynhyrchion bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid oddi wrth eu perchennog cyfreithiol mewn modd anonest gan fwriadu elwa’n ariannol ar eu defnyddio neu eu gwerthu.

5.2.1 Er mwyn parhau â’r themâu a welwyd yn Asesiad Strategol 2020, mae troseddau meddiangar o fewn y diwydiant bwyd yn parhau i ganolbwyntio ar ddwyn da byw.

5.2.2 Mae cudd-wybodaeth hefyd yn nodi bygythiadau mewnol, sy’n ymwneud â masnachu sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chig ‘oddi ar y llyfrau’, wedi’i hwyluso gan weithwyr busnesau bwyd er budd personol.

5.2.3 Mae dwyn unrhyw anifail a fwriedir ar gyfer y gadwyn fwyd yn cyflwyno risg diogelwch bwyd sylweddol i ddefnyddwyr. Mae risgiau’n codi o hanes meddygol a statws iechyd anhysbys yr anifail, symudiadau cudd a lladd sy’n gwyro oddi wrth reolaethau swyddogol a systemau olrhain.

5.2.4 Mae adroddiadau yn parhau i dynnu sylw at y cysylltiad rhwng dwyn da byw a phrosesu anghyfreithlon, gyda lladd yn y cae yn cael ei adrodd ym mhob un o’r tri prif gath o gig coch. Mae cael gwared ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn y fan a’r lle yn peri risgiau amgylcheddol ac iechyd.

5.2.5 Er bod Asesiad Strategol 2020 wedi nodi bod defaid, ŵyn a physgod cregyn yn cael eu dwyn, mae mwy o rywogaethau bellach yn cael eu dwyn, gan gynnwys buchod a moch, er nad yw hyn yn digwydd yn aml.

5.2.6 Gan mai dim ond trwy werthu'r cynnyrch neu'r anifail ymlaen y ceir budd ariannol o ddwyn da byw, mae bron yn sicr y defnyddir technegau troseddau bwyd eraill, yn bennaf prosesu anghyfreithlon, camgyfleu a thwyll dogfennau, ochr yn ochr â'r dwyn.

5.2.7 Mae'n debygol bod tanadrodd am ddwyn da byw, a nodwyd yn 2020, yn parhau. Nodir hefyd oedi sylweddol wrth adrodd, gan nad yw achosion o ddwyn yn aml yn cael eu nodi nes bod anifeiliaid yn cael eu casglu o gaeau ar gyfer y gaeaf. Gall oedi o'r fath gyfyngu ar gyfleoedd ymchwilio.

5.2.8 Mae dal bylchau sylweddol yn y gudd-wybodaeth ynghylch y llwybrau a gymerir gan y rhai sy'n gwerthu neu'n prosesu da byw wedi'u dwyn i'r gadwyn fwyd, a ph'un a yw hyn yn defnyddio llwybrau cudd neu lwybrau'r prif ffrwd.

5.2.9 Er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y gudd-wybodaeth ynghylch gwerthu da byw wedi'u dwyn, gwnaethom weithio gydag asiantaethau partner yn 2023, i wella ein dealltwriaeth o'r ffordd y caiff systemau adnabod anifeiliaid eu camddefnyddio i hwyluso gwerthu da byw wedi'u dwyn, a mynd i'r afael â hyn.

5.2.10 Mae adroddiadau ar gynaeafu a photsio pysgod cregyn yn anghyfreithlon wedi gostwng yn sylweddol ers asesiad 2020. Ceir adroddiadau lefel isel o hyd sy'n nodi bod cocos, cregyn Manila ac wystrys yn cael eu targedu o welyau di-ddosbarth neu'n cael eu gorbysgota o welyau dosbarthedig mewn sawl rhan o'r DU. Gall bwyta pysgod cregyn o welyau o'r fath beri risg sylweddol i iechyd y cyhoedd, ond mae partneriaid rheoleiddio'n gweithio i ganfod ac amharu ar weithgarwch ar y draethlin.

5.2.11 Rydym yn asesu bod yr anallu i allforio pysgod cregyn dosbarth B i'r UE heb iddynt gael eu puro wedi tanseilio hyfywedd masnachol masnachu pysgod cregyn dosbarth B yn anghyfreithlon (neu bysgod cregyn di-ddosbarth a gyflwynir yn dwyllodrus fel rhai dosbarth B).

5.2.12 Mae posibilrwydd realistig bod erlyn a dedfrydu troseddwyr allweddol yn 2022 a 2023 wedi tarfu ar droseddu ac wedi lleihau faint o gudd-wybodaeth sydd ar gael[15,16]. Gwnaethom hefyd ddedfrydu unigolyn yn 2024 sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon ac yr ymchwiliwyd iddo gan yr Awdurdod Meistri Gangiau a Chamdrin Llafur (GLAA), gyda chymorth ymchwiliad ariannol gan yr ASB. Cafwyd yr unigolyn yn euog o weithredu fel gangfeistr didrwydded ym maes casglu pysgod cregyn yng Ngogledd Iwerddon, sef trosedd yr oedd ganddo euogfarn flaenorol amdani.

15 Gang anghyfreithlon wedi'u dal yn Southend gydag wystrys sydd wedi'u cynaeafu er mwyn gwneud elw' | Echo (echo-news.co.uk)

16 IFCA Cernyw yn nodi "Buddugoliaeth Fawr" ar ôl erlyniad electro-bysgota (thefishingdaily.com)

5.2.13 Nododd y GLAA lai o adroddiadau a risg ostyngol mewn perthynas â chasglu pysgod cregyn. Nid oedd ychwaith unrhyw honiadau newydd o lafur gorfodol yn y sector pysgod cregyn[17].

5.2.14 Ers yr asesiad diwethaf, mae gweithgarwch amlasiantaeth cydgysylltiedig a gefnogir gan yr ASB ac FSS, ar hyd arfordiroedd Cymru, Lloegr a'r Alban, wedi cryfhau perthnasoedd a llif cudd-wybodaeth rhwng y gwahanol asiantaethau sy'n rheoleiddio'r maes hwn.

5.2.15 Mae adroddiadau i'r Unedau ar helgig wedi'i botsio sy'n cyrraedd y gadwyn fwyd wedi gostwng o gymharu â'r lefelau a welwyd yn 2020.

## 5.3 Prosesu anghyfreithlon

**Prosesu anghyfreithlon:**
lladd, paratoi neu brosesu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio perthnasol.

5.3.1 Mae cudd-wybodaeth ynghylch prosesu anghyfreithlon yn cwmpasu arferion sy'n dod o fewn y categorïau canlynol i raddau helaeth:

- **lladd anghyfreithlon:** lladd anifeiliaid mewn lladd-dy anghymeradwy neu gan laddwr anghymeradwy
- **sefydliadau heb eu cymeradwyo neu heb eu cofrestru:** defnyddio safle nad yw wedi'i gofrestru na'i gymeradwyo gan yr awdurdod cymwys
- **gweithgarwch heb ei gymeradwyo:** cyflawni gweithgarwch mewn safle cymeradwy, nad yw'r safle wedi'i gymeradwyo'n benodol ar ei gyfer

5.3.2 Mae prosesu anghyfreithlon yn cyflwyno tri llwybr er budd ariannol:

- costau is o weithredu y tu allan i brosesau cymeradwy
- mwy o elw o drwybwn uwch a gwerthu
- diwallu galwadau defnyddwyr o fewn cymunedau penodol, lle nad oes modd cynhyrchu'r cynhyrchion a ffefrir yn gyfreithlon yn y DU

17 Asesiad Strategol Awdurdod Meistri Gangiau a Chamdrin Llafur 2023/2024

5.3.3 Yn asesiad 2020, gwelwyd achosion o brosesu anghyfreithlon yn y sectorau cig coch, dofednod, pysgod cregyn, wyau a bwyd anifeiliaid. Nid yw'r data adrodd yn cynnwys pysgod cregyn nac wyau ar gyfer yr asesiad hwn.

5.3.4 Arhosodd nifer yr adroddiadau rhwng 2022 a 2023 yn gyson ar gyfer prosesu anghyfreithlon yn y sector bwyd anifeiliaid, lle'r oedd sawl achos o brosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid anwes yn anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys 'bwyd anifeiliaid anwes amrwd' sy'n cael ei gynhyrchu a'i werthu heb gymeradwyaeth na thrwydded. Mae'n dal yn debygol nad yw bwyd anifeiliaid anwes a gynhyrchir mewn sefydliadau heb gymeradwyaeth yn destun rheolaethau tymheredd a hylendid priodol, gan beri risg iechyd i anifeiliaid anwes a'u perchnogion.

5.3.5 Er nad yw'r unigolion na'r busnesau sy'n cyflawni troseddau prosesu anghyfreithlon wedi'u cofrestru neu eu cymeradwyo ar gyfer gweithgareddau eraill, mae'n bosibilrwydd bod pwysau ariannol yn ystod yr argyfwng costau byw wedi ysgogi busnesau a oedd yn cydymffurfio'n flaenorol i ymgymryd ag arferion anghyfreithlon. Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd mae lladd rhywogaethau nad ydynt wedi'u cymeradwyo mewn ffatrïoedd prosesu cymeradwy.

5.3.6 Wrth ystyried y diffyg cymeradwyo a chofrestru sy'n dod i'r amlwg trwy adroddiadau o'r math hwn, ystyrir ei bod yn annhebygol bod y gudd-wybodaeth wir yn adlewyrchu'r lefelau troseddu. Mae diffyg cymeradwyo a chofrestru o fudd i fasnachwyr anghyfreithlon trwy gael gwared ar y camau ataliol a chost goruchwyliaeth a gwelededd rheoleiddiol.

5.3.7 Mae'n debygol iawn bod troseddau bwyd pellach yn mynd law yn llaw â phrosesu anghyfreithlon fel camgyfleu ansawdd neu ddyddiad, a thwyll dogfennau. Fodd bynnag, mae'r galw parhaus am 'smokies' (a ddiffinnir yn ddiweddarach yn y bennod hon) yn brawf bod defnyddwyr yn derbyn y risg sy'n gysylltiedig â methodolegau cynhyrchu anghyfreithlon.

## Safleoedd Cymeradwy

Mae Rheoliad y Comisiwn Ewropeaidd a gymathwyd (CE)[18] 853/2004 a (CE) 852/2004 yn nodi'r gofynion y mae angen i sefydliad eu cyflawni er mwyn cael ei gymeradwyo. Mae'r broses gymeradwyo wedi'i chynnwys yn Rheoliad a gymathwyd (UE) 2017/625.

18 Dangosfwrdd cyfraith yr UE a ddargedwir – GOV.UK (www.gov.uk)

5.3.8 Yn wahanol i'r hyn a welwyd yn 2020, lle'r oedd achosion o ladd anghyfreithlon yn ymwneud yn bennaf â gweithrediadau y tu allan i oriau o fewn safleoedd cymeradwy pan oedd galw mawr, mae adroddiadau yn 2023 yn nodi cynnyd mewn lladd anghyfreithlon mewn lleoliadau cudd fel ffermydd a thir preifat. Mae bron yn sicr bod y gogwydd hwn yn deillio o duedd adrodd a gyflwynwyd gan ffocws gweithredol sylweddol ar gynhyrchu 'smokies', a gysylltir yn fwy cyffredin ag ardaloedd gwledig.

5.3.9 Mae lladd defaid ac ŵyn yn anghyfreithlon yn parhau i fod yn nodwedd amlwg o'n cudd-wybodaeth, gyda mannau penodol yn yr Alban, Cymru ac yn Ne-ddwyrain a De-orllewin Lloegr. Yn ystod chwarter olaf 2023, gwelwyd hefyd fygythiad sy'n dod i'r amlwg, er yn llai cyffredin, sef lladd moch a buchod yn y cae yn anghyfreithlon. Nid oes gennym ddigon o gudd-wybodaeth am gyrchfannau a llwybrau llif nwyddau terfynol ar gyfer cig a gynhyrchir yn anghyfreithlon o hyd.

5.3.10 Mae'n debygol bod prosesu defaid a moch yn anghyfreithlon yn gysylltiedig â defnyddwyr yn chwilio am gynnyrch ar gyfer dathlu gwyliau crefyddol, a hefyd i fodloni'r galw penodol am gig sy'n cael ei fagu, ei ladd a'i baratoi mewn ffordd wahanol ddulliau cynhyrchu'r DU. Mae'n bosibilrwydd bod cyflwyno rheolaethau llymach ar fewnforion porc ym mis Medi 2022[19], yn ogystal â mwy o atafaeliadau hysbys ar y ffin[20] wedi arwain at gynnydd mewn lladd anghyfreithlon yn y DU.

## Astudiaeth Achos – atal sy'n canolbwyntio ar y gymuned

Yn 2023, gwnaeth yr ASB ail-ryddhau fideo wedi'i anelu'n benodol at y gymuned yn Nwyrain Ewrop. Ei nod oedd codi ymwybyddiaeth o risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â mewnforion porc anghyfreithlon nad oes modd ei olrhain ac sy'n cael ei gludo y tu allan i'r gadwyn oer. Cyfrannodd y gweithgarwch hwn at yr ymdrechion ehangach a arweiniwyd gan Defra i gyfleu negeseuon allweddol yn allanol ar y risgiau sy'n gysylltiedig â mewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn anghyfreithlon.

19 Rheolaethau llym newydd ar borc a chynhyrchion porc i ddiogelu sector moch Prydain rhag Clwy Affricanaidd y Moch – GOV.UK (www.gov.uk)

20 Sylw yn y cyfryngau ar atafaeliadau cig anghyfreithlon ym Mhorthladd Dover

5.3.11 Er ei bod yn debygol bod mewnforion porc anghyfreithlon ar raddfa fach yn mynd ati i ateb y galw lleol ymhlith teuluoedd neu gymunedau, mae cyrchfan a graddau prosesu pellach y cig yn y DU, yn ogsytal â sut y caiff ei waredu, yn parhau i fod yn fwlch yn y gudd-wybodaeth. At hynny, mae diffyg gwybodaeth ar gael ynghylch graddau'r twyll gan fusnesau sy'n rhoi'r cynhyrchion hyn ar y farchnad.

5.3.12 Yn wahanol i asesiad 2020, mae'r dyfarniadau am gynhyrchu a dosbarthu 'smokies' – carcasau defaid a geifr â'r croen arnynt, sy'n cael eu trin gan chwythlampau – bellach yn cael eu gwneud yn hyderus iawn. Mae bron yn sicr bod y galw am 'smokies' wedi creu cyfleoedd proffidiol[21] i droseddwyr cyfundrefnol sy'n gweithredu o nifer fach o leoliadau yn y DU, gan wasanaethu defnyddwyr mewn dinasoedd mawr trwy siopau manwerthu neu drwy werthu iddynt wyneb yn wyneb.

5.3.13 Mae bron yn sicr bod smokies yn cael eu cynhyrchu y bennaf yn ardaloedd gwledig Cymru, gyda gweithgarwch cyfyngedig yn yr Alban a Chernyw. Mae carcasau'n cael eu cludo i fannau trefol penodol, yn bennaf yn Lloegr, fel Birmingham a Llundain. Mae cysylltiadau hefyd wedi'u sefydlu ag Iwerddon.

5.3.14 Mae'n debygol iawn bod gwyliau crefyddol ac achlysuron arbennig eraill yn creu mwy o alw am 'smokies'. Rydym yn gwybod bod y galw am ddefaid a geifr gyda'r croen ynghlwm mewn rhai cymunedau, er gwaethaf y risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â pharatoi carcasau yn y modd hwn. Mae hyn oherwydd y gallai'r croen a'r cnu ddod i gysylltiad â deunydd ysgarthol a gallai hyn drosglwyddo pathogenau i'r cig. Mae gwybodaeth ynghylch i ba raddau y mae defnyddwyr yn deall y risgiau hyn yn llawn yn parhau i fod yn aneglur.

5.3.15 Nid oes unrhyw gysylltiad amlwg o hyd rhwng dwyn defaid a chynhyrchu 'smokies'. Ystyrir ei bod yn debygol y caiff mamogiaid difa eu prynu mewn arwethiannau oherwydd eu cost isel.

5.3.16 Mae'n debygol iawn bod dulliau anghyfreithlon prosesu 'smokies' yn cyd-fynd ag achosion o dorri rheolau lles anifeiliaid. Ym mis Medi 2022, cafodd unigolyn ei gadw yn y ddalfa ar ôl cael ei ddarganfod ar fferm yn llosgi carcasau defaid gyda fflachlampau propan. Fe'i cafwyd yn euog yn ddiweddarach ym mis Tachwedd 2023 am gyhuddiadau lles anifeiliaid yn ymwneud â lladd yr anifeiliaid.

21 Carchar i ddyn o Aberteifi o ganlyniad i weithgareddau cig anghyfreithlon a 'smokies' | Wales Farmer

# 5.4 Dargyfeirio Gwastraff

**Dargyfeirio gwastraff:**
dargyfeirio bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid sydd i fod i'w waredu yn ôl i'r cadwyni cyflenwi perthnasol yn anawdurdodedig.

5.4.1 Yn wahanol i'r lefelau adrodd isel a amlinellwyd yn Asesiad Strategol 2020, mae adroddiadau am gudd-wybodaeth yn ystod y cyfnod hwn wedi cynyddu. Fodd bynnag, ystyrir bod tan-adrodd yn debygol o hyd.

5.4.2 Yn 2023, cynyddodd yr ASB ei gwaith ymgysylltiad o ran y maes bygythiad newydd hwn, drwy greu gweithgor pedair gwlad ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Mae hyn wedi helpu i gynyddu'r gudd-wybodaeth a rennir rhwng aelodau'r grŵp, yn ogystal â datblygu gwybodaeth am y sbardunau presennol ar gyfer dargyfeirio gwastraff.

5.4.3 Mae'n debygol iawn bod cymhellion ariannol ar gyfer dargyfeirio gwastraff, a amlygwyd yn Asesiad Strategol 2020, wedi cryfhau erbyn hyn. Mae cost proteinau, ynni a gwaredu gwastraff wedi cynyddu'n barhaus. Mae'n debygol bod pwysau ariannol ar fusnesau sy'n cael problemau ariannol yn cyfrannu at y cymhelliant i dorri costau gwaredu drwy arferion anghyfreithlon fel gwerthu gwastraff, er mwyn ennill refeniw ychwanegol.

5.4.4 Yn 2023, roedd adroddiadau cudd-wybodaeth yn dangos bod bygythiad newydd mewn perthynas â gwartheg sy'n cyrraedd y gadwyn fwyd mewn modd twyllodrus. Byddai gwir statws y gwartheg fel arall yn arwain at golled ariannol yn sgil gwaredu'r anifail. Mae'n debygol bod llifoedd nwyddau o'r fath yn cael eu hwyluso gan dwyll dogfennau.

## Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid

Mae sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP) yn cynnwys carcasau anifeiliaid, rhannau o anifeiliaid neu gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid nad ydynt yn addas i'w bwyta gan bobl. Cânt eu rhannu'n dri chategori risg o 3 i 1, sy'n pennu lefel y prosesu sydd ei hangen ar y cynnyrch. Gellir defnyddio categori 3 i ddosbarthu'r rhan fwyaf o fwydydd anifeiliaid anwes amrwd neu fwydydd anifeiliaid anwes wedi'u prosesu. Defnyddir categorïau 1 a 2 i ddosbarthu'r ABP yr ystyrir eu bod yn risg uchel ac sydd i'w gwaredu trwy gyfleuster prosesu ABP cymeradwy.

5.4.5 Mae arferion anghyfreithlon sy'n ymwneud ag ABP yn parhau i beri risg o ledaenu clefydau anifeiliaid trosglwyddadwy gan nad ydynt yn dilyn y rheolaethau swyddogol sydd ar waith i'w hatal rhag lledaenu, naill ai i bobl drwy fwyta cynhyrchion risg uchel wedi'u heintio, neu i anifeiliaid drwy ailgyfeirio gwastraff arlwyo cynhyrchion anifeiliaid i fwyd anifeiliaid. Fodd bynnag, nid yw maint y risg hon o ran ymddygiad twyllodrus wedi'i feintioli ymhellach.

5.4.6 Ystyrir bod y bygythiad o gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes amrwd sy'n dod i'r amlwg ac a nodir o dan brosesu anghyfreithlon yn debygol o fod yn gysylltiedig â dargyfeirio gwastraff, lle caiff ABP (gan gynnwys deunydd risg uchel) eu dargyfeirio o lwybrau gwaredu gwastraff cyfreithlon y telir amdanynt i gynhyrchwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ag awdurdod lleol neu nad ydynt wedi'u cymeradwyo gan yr ASB nac FSS. Mae'n debygol bod y poblogrwydd a'r galw cynyddol am fwyd anifeiliaid anwes amrwd wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer y busnesau heb eu cofrestru sy'n gweithredu o fewn y farchnad hon.

5.4.7 Mae'n debygol iawn y caiff ABP eu hailgyfeirio unwaith y byddant wedi gadael eu lleoliad prosesu, fodd bynnag, nodir hyn â lefel isel o hyder. Mae dal i fod bylchau mewn cudd-wybodaeth o ran y gyrchfan derfynol, ac i ba raddau y mae'r rhai sy'n eu cyflenwi'n ddiweddarach yn deall eu statws.

5.4.8 Mae'n debygol, mewn rhai achosion, fod risg nad yw contractwyr allanol yn trin nac yn cyfeirio cynnyrch gwastraff yn gywir ac fel y nodir. Bu problemau'n ddiweddar gydag ymddygiad ac uniondeb darparwyr gwasanaethau sy'n gweithio yn y maes hwn, felly argymhellir yn gryf i reoleiddwyr a phartneriaid yn y diwydiant fod yn wyliadwrus.

5.4.9 Mewn rhai achosion, lle mae niferoedd uchel o ABP dofednod yn cael eu cynhyrchu gan fusnesau prosesu, mae gweithgareddau anghyfreithlon wedi'u cynnal ochr yn ochr â thrin cyfreithlon. Gall hyn helpu i guddio troseddoldeb, lle mae'n bosib na fydd modd archwilio pwysau gwastraff yn llawn.

5.4.10 Mae cudd-wybodaeth a ddaeth i law yn ystod 2023 yn dangos cynnydd yn nifer y safleoedd heb eu cofrestru neu heb eu cymeradwyo y nodwyd eu bod yn gysylltiedig â thrin, cynhyrchu neu werthu ABP. Mae'n debygol iawn bod sefydliadau'n osgoi cofrestru oherwydd costau[22], ac felly hefyd yn osgoi goruchwyliaeth reoleiddiol.

5.4.11 Mae'n debygol nad yw dargyfeirio ABP yn cael ei ganfod na'i adrodd yn ddigonol. Mae busnesau heb eu cofrestru'n annhebygol o gael eu nodi nes bod rhywbeth yn sbarduno hyn, fel cwynion am gynhyrchion is na'r safon neu salwch ymhlith anifeiliaid neu bobl.

22 Ffioedd am wasanaethau ABP a ddarperir gan APHA – GOV.UK (www.gov.uk)

# 5.5 Difwyno ac amnewid

**Difwyno:**
lleihau ansawdd cynnyrch bwyd drwy ychwanegu sylwedd arall, gyda'r bwriad o leihau costau cynhyrchu, neu wella'r ansawdd yn ymddangosiadol.

**Amnewid:**
Disodli cynnyrch bwyd neu gynhwysyn gyda sylwedd arall sydd o fath tebyg ond o ansawdd gwaeth.

5.5.1 Rydym yn parhau i arsylwi ar dri phrif weithgaredd yn y maes hwn. Mae achosion lle cânt eu defnyddio yn amrywio o ran maint, difrifoldeb a niwed.

5.5.2 Mae difwyno ac amnewid yn parhau i fod yn dechnegau troseddu gweithredol gyda chynhyrchion cig. Mae'n debygol bod busnesau'n defnyddio'r technegau hyn i leihau costau a chynnal sylfaen cwsmeriaid gyda chynnyrch fforddiadwy.

**Difwyno meintiol:**
Ychwanegu rhywbeth o werth is yn fwriadol i gynyddu cyfaint neu bwysau cynnyrch, Mae'r dechneg hon yn golygu bod modd gwerthu mwy o gynnyrch o ansawdd israddol i gwsmeriaid.

**Difwyno ansoddol:**
ychwanegu sylwedd yn fwriadol i wneud i gynnyrch ymddangos o ansawdd uwch, Mae'r dechneg hon yn caniatáu i gynnyrch gael ei werthu am bris uwch.

5.5.3 Yn unol â'r arsylwadau a wnaed yn Asesiad Strategol 2020, mae canlyniadau cudd-wybodaeth a samplu yn parhau i dynnu sylw at y ffaith bod modd mesur y trefniadau sydd ar waith i ddifwyno cynhyrchion cig coch wedi'u prosesu ag amnewidion protein cost is, gan gynnwys cyw iâr a chyfansoddion braster uchel/gewynnau. Mae'n debygol bod cost gynyddol cig coch wedi cymell difwyno o'r fath ymhellach.

5.5.4 Mae'n bosibilrwydd realistig, pan fo busnesau'n dibynnu ar gyflawni contractau mawr, fod pwysau ariannol yn temtio rhai busnesau i gynnal allbwn drwy droseddau difwyno ac amnewid pan fydd y galw'n cynyddu, neu i roi cynnyrch dros ben mewn nwyddau eraill er mwyn osgoi gwastraff. Mae enghreifftiau o ddifwyno a adroddwyd wedi

cynnwys cymysgu mathau o laeth er mwyn cyflawni archebion arlwyo a defnyddio twrci dros ben ar gyfer archebion cyw iâr.

5.5.5 Er nad yw amnewid a difwyno cynhyrchion cig a dofednod fel arfer yn peri risgiau diogelwch uwch, gall bwyta bwydydd yn ddamweiniol sy'n mynd yn erbyn defodau crefyddol gael effaith seicolegol.

5.5.6 Yn 2023, mae gwaith samplu awdurdodau lleol a gwaith samplu a ariennir yn ganolog wedi nodi bod difwyno ac amnewid cig coch yn digwydd yn rheolaidd. Cynhyrchion tecawê a bwyd brys oedd i gyfrif am y rhan fwyaf o fethiannau samplu. Mae ymddangosiad, natur ac eglurder blas mewn cynhyrchion wedi'u prosesu neu gynhyrchion cyfansawdd fel cebabs, topins pizza a samosas, ac mewn prydau â blas a lliw cryf fel cyris, yn ei gwneud hi'n anodd i bobl nodi twyll o'r fath.

5.5.7 Mae posibilrwydd realistig y bydd mwy o gymhelliant i amnewid neu ddifwyno'r rhywogaethau pysgod hynny sydd bellach yn fwy prin a mwy gwerthfawr o ganlyniad i darfu ar y fasnach. Cafwyd effaith sylweddol ar lif pysgod gwyn i'r DU oherwydd y tariffau masnach bwyd môr o 35% a osodwyd ar Rwsia gan lywodraeth y DU yn 2022 mewn ymateb i'r rhyfel yn Wcráin. Yn 2022, roedd Rwsia yn rheoli 45% o gyflenwad pysgod gwyn y byd[23].

5.5.8 Gall cynhyrchion pysgod cyfansawdd fel cacennau pysgod a physgod mewn briwsion bara fod mewn perygl o gael eu difwyno a'u hamnewid, gyda'r gwaith samplu sydd ar gael gan y diwydiant yn nodi problemau rhywogaethu. Fodd bynnag, mae sgil-gynhyrchion dal *(by-catch)* a chroeshalogi mewn pysgodfeydd yn cael eu nodi'n aml yn ffactorau achosol.

5.5.9 Fel gyda chig, mae'n debygol bod cynhyrchion pysgod cyfansawdd a chynhyrchion pysgod wedi'u gorchuddio yn haws i'w difwyno neu eu hamnewid na thoriadau o bysgod, oherwydd natur "gudd" y cynnwys. Mae hefyd yn anoddach eu profi'n wyddonol oherwydd natur gyfansawdd y samplau.

5.5.10 Yn 2023, parhaodd adroddiadau byd-eang i dynnu sylw at y bygythiad o ddifwyno olewau bwytadwy, yn bennaf olew olewydd, ac yn fwy diweddar olew blodau'r haul. Mae'n debygol iawn bod ffactorau cyfoes, gan gynnwys gwrthdaro geowleidyddol, newid yn yr hinsawdd, costau cynhyrchu a chludo cynyddol a phrinder llafur yn yrwyr allweddol, ochr yn ochr â gostyngiad disgwyliedig o 36% mewn cnydau ar gyfer y tair gwlad sy'n cynhyrchu'r mwyaf o olew olewydd, lle mae clefyd planhigion hefyd yn parhau i ddifrodi llwyni. Dyblodd prisiau olew olewydd rhwng 2022 a 2023, gan arwain

23 Cyflwyno tariff Llywodraeth y DU ar fewnforion bwyd môr o Rwsia | Pysgod môr

at gyfleoedd proffidiol i gyflawni twyll. Mae pryderon am y sector hwn yn dal i fod yn hysbys yn 2024.

5.5.11 Ymhlith y dulliau difwyno a nodwyd yn hanesyddol ac yn fyd-eang mewn olew olewydd mae ychwanegu olewau llysiau, cnau neu hadau, ynghyd â sylweddau fel cloroffyl, neu beta-caroten at olew o ansawdd isel, i greu lliw a dwyster gwell. Mae'n parhau i fod yn debygol iawn bod difwyno olew olewydd yn digwydd yn agosach at y broses gynhyrchu.

5.5.12 Mae prif bartneriaid y diwydiant yn parhau i fod yn wyliadwrus o ddifwyno olew olewydd. Mae cudd-wybodaeth o 2023 yn dangos ei bod yn annhebygol bod cynnyrch twyllodrus wedi bod ar werth gan brif fanwerthwyr y DU. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn annhebygol iawn nad yw arferion twyllodrus ymhellach i fyny'r gadwyn yn effeithio o gwbl ar fewnforion y DU.

5.5.13 Difwyno yw'r brif nodwedd sy'n codi o hyd mewn cudd-wybodaeth ynghylch dilysrwydd mêl. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae mêl sy'n cael ei allforio o'r DU wedi bod yn destun craffu yn dilyn cyhoeddi adroddiad *From The Hives* y Comisiwn Ewropeaidd[24]. Yn ôl yr adroddiad, barnwyd bod yr holl samplau o fêl a fewnforiwyd i'r UE o'r DU yn dangos amheuon o ddifwyno â surop siwgr, ar sail dangosyddion dethol yr UE.

5.5.14 Mewn ymateb i'r canlyniadau hyn, yn ystod 2023, galwodd yr ASB am weithgarwch dilynol gan y diwydiant drwy awdurdodau lleol, wedi'i lywio gan ganfyddiadau gweithgor arbenigwyr gwyddonol a ffurfiwyd gan Defra. Ymatebodd y DU i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch canlyniad y gweithgarwch dilynol, gan rannu sylwadau'r grŵp arbenigol, a chyrff masnach, ar y dulliau dadansoddi a'r dangosyddion a ddefnyddiwyd yng ngwaith *From The Hives*. Hyd yma, ni fu unrhyw erlyniadau na sancsiynau rheoleiddiol i fusnesau yn y DU o ganlyniad.

5.5.15 Mae data'r diwydiant sydd ar gael ar gyfer y cyfnod adrodd wedi nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio, gyda rhai'n codi pryderon cysylltiedig posib ynghylch dilysrwydd, ond mae cyfyngiadau o ran y dulliau dadansoddi sydd ar gael, a'r dadlau ynghylch dehongli canlyniadau (yn enwedig ynghylch mêl o ardaloedd penodol) yn ffactor sy'n cymhlethu pa gamau gweithredu y gellir eu cymryd neu y dylid eu cymryd ar y signalau hyn, yn fasnachol neu gan reoleiddwyr.

5.5.16 Mae rhaglen sylweddol o waith yn mynd rhagddi sy'n cynnwys yr ASB, Defra, labordai a phartneriaid yn y diwydiant, sy'n canolbwyntio ar wella'r galluoedd gwyddonol a

24 [Mêl (2021-2022) – Y Comisiwn Ewropeaidd (europa.eu)]

rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â dilysrwydd mêl. Mae'r gwaith hwn yn cael ei fwydo i ymgysylltiad parhaus â'r Comisiwn Ewropeaidd.

5.5.17 Rydym o'r farn ei bod yn annhebygol bod mêl wedi'i ddifwyno ar gael yn eang ar farchnad y DU. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y cymhlethdodau a nodwyd uchod wrth wneud y dyfarniad hwn.

5.5.18 Mae gwaith samplu rheoleiddiol a gwaith samplu'r diwydiant yn nodi risgiau parhaus o ddifwyno yn y sector perlysiau a sbeisys o ran ychwanegu swmp at nwyddau i gael pwysau ychwanegol.

5.5.19 Nodwyd lefelau posib o ddifwyno yn setiau data gwaith samplu'r diwydiant ar gyfer 2023, a hynny ond mewn cyfran fach iawn o samplau.

5.5.20 Yn nata samplu 2023, nodwyd bod dail olewydd wedi'u hychwanegu at oregano, sydd wedi bod yn thema reolaidd ers sawl blwyddyn, mewn samplau rheoleiddiol[25] a data'r diwydiant. Mae lefelau uwch o ddifwyno â phlanhigion allanol (fel y nodwyd mewn rhai o'r canlyniadau hyn) yn arwydd o ddifwyno bwriadol.

5.5.21 Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr ASB[26] wedi archwilio dulliau dadansoddol yn ymwneud â phrofi dilysrwydd perlysiau a sbeisys, cymhlethdodau o ran eu cymhwyso a mynediad at labordai swyddogol dadansoddwyr cyhoeddus.

5.5.22 Mae gwaith samplu'r diwydiant a Samplu Gwyliadwriaeth Manwerthu'r ASB yn 2022-2023 wedi nodi achosion unigol o ddifwyno reis basmati â mathau eraill sydd ar werth yn DU, ac mewn rhai achosion, amnewidiad llawn.

5.5.23 Mae data samplu sydd ar gael yn y cyfnod adrodd hefyd yn nodi canlyniadau cyfyngedig sydd o bosib yn dangos bod gwenith cyffredin yn cael ei ychwanegu at basta a wneir â gwenith caled. Nid yw hyn wedi codi mewn gwaith samplu rheoleiddiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

5.5.24 Nid yw adroddiadau yn 2023 wedi nodi lefelau uchel o ddifwyno nac amnewid mewn coffi wedi'i falu, er bod adroddiadau cyn 2020 wedi tynnu sylw at y bygythiad ariannol o ddisodli Robusta ag Arabica. Yn y data samplu gwyliadwriaeth manwerthu sydd ar gael yn y cyfnod hwn, dim ond ychydig o achosion o ddifwyno oedd rhwng Arabica a Robusta.

25 Rhaglen Samplu Gwyliadwriaeth yr ASB

26 Adolygiad o'r dulliau ar gyfer dadansoddi perlysiau a sbeisys coginiol i gadarnhau eu bod yn ddilys

5.5.25 Mae difwyno ansoddol bwydydd â lliwiau anghyfreithlon i wella ymddangosiad y cynnyrch yn parhau i ddigwydd, ond i raddau cyfyngedig yn unig. Gall ychwanegu lliwiau helpu i wneud i nwyddau edrych fel eu bod o ansawdd gwell nag ydyn nhw mewn gwirionedd.

5.5.26 Mae cynhyrchion targededig yn cynnwys olew palmwydd a sbeisys. Mae enghreifftiau o'r nwyddau a ddefnyddir i ddifwyno yn cynnwys cyfansoddion plwm (sy'n gysylltiedig â sbeisys), a llifynnau Sudan (mewn sbeisys o India ac olew palmwydd o Ghana). Mae'r ddau yn hysbys fel risgiau difwyno ac yn destun gwaith gwyliadwriaeth a rheolaethau swyddogol.

5.5.27 Yn ystod y cyfnod adrodd, canfuwyd lefelau plwm mewn sbeisys gan gynnwys tsili, tyrmerig a sinamon yn y DU, er nad yw'n glir a oedd y lefelau hyn o ganlyniad i ddifwyno bwriadol. Mae Gweinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau UDA wedi gweld arwyddion posib o ddifwyno sinamon â chromad plwm, gan arwain at salwch ymhlith plant yn gysylltiedig â chynnwys plwm mewn codenni saws afal sinamon yn 2023-24[27].

**Amnewid:**
Cyfnewid cynnyrch (neu gynhwysyn) yn fwriadol am gynnyrch rhatach, neu un sydd ar gael yn fwy rhwydd. Mae hyn yn golygu bod modd gwerthu'r am yr un pris, ond gyda chostau is.

5.5.28 Amnewid yw defnyddio un cynnyrch neu gynhwysyn yn lle un arall ar raddfa eang.

5.5.29 Mae methiannau samplu o ran amnewid yn codi'n bennaf yng ngwaith samplu awdurdodau lleol, lle mae sefydliadau bwyd brys yn ymddangos yn aml. Mae data samplu'r diwydiant yn dangos lefelau sylweddol is o ddifwyno.

5.5.30 Gwelwyd achosion o amnewid a difwyno o fewn cynhyrchion cig coch yn asesiad 2020, ond yn 2023 mae'r adroddiad bellach wedi ymestyn i gynnwys prosesu cyw iâr. Mae tystiolaeth o amnewid cyw iâr gyda thwrci wedi'i nodi yn y broses o gynhyrchu cynhyrchion cyw iâr wedi'u prosesu.

5.5.31 Mae'r data samplu sydd ar gael ar gyfer 2023 yn dangos bod topins pizza yn cael eu hamnewid yn aml, yn enwedig caws a ham. Mae presenoldeb twrci heb ei ddatgan yn lle ham yn digwydd ar lefel sylweddol. Ymhellach, mae amnewid prosciutto gyda

27 Diweddariadau'r Weinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau ar lefelau uwch o blwm a chromiwm mewn cynhyrchion sy'n cynnwys sinamon

chig cost is a chaws mozzarella gydag amnewidion caws[28] hefyd yn ymddangos yn yr adroddiadau samplu ar gyfer pizzas nad ydynt yn cydymffurfio, lle mae cymhelliant ariannol yn debygol.

5.5.32 Mae gwaith samplu awdurdodau lleol wedi parhau i nodi lefel isel o fethiannau samplu o ran amnewid rhywogaethau pysgod gwyn o fewn y sector gwasanaethau bwyd. Mae'n debygol bod arferion o'r fath yn cael eu dylanwadu gan bris ac argaeledd, a gallant ddigwydd oherwydd ffactorau hwylustod yn hytrach nag yn rhagfwriadol.

5.5.33 Mae gweithgarwch ymchwiliol yn ystod 2023 wedi dangos bod llysiau premiwm yn cael eu hamnewid ag amrywiadau cost is. Er bod yr adroddiadau wedi bod yn ynysig, mae'r ffaith nad oes modd gwahaniaethu'n rhwydd rhwng amrywiadau yn achosi gwendidau o ran tangofnodi a chanfod achosion o amnewid.

5.5.34 Mae gwirodydd gwerth uchel wedi'u brandio'n parhau i gael eu dyfrio (difwyno) neu eu hamnewid â chynnyrch o ansawdd is mewn safleoedd trwyddedig. Er bod yr arferion hyn yn cael eu hadrodd yn eang gan awdurdodau lleol, maent yn ymddangos fel digwyddiadau unigol. Mae adroddiadau yn ystod 2023 yn dangos cynnydd sylweddol yn amrywiaeth y cynhyrchion yr adroddir eu bod yn destun amnewid, o gymharu ag adroddiadau blaenorol, gan gynnwys nifer o wahanol wirodydd a chwrw premiwm.

5.5.35 Mae'n bosibilrwydd realistig fod y doll alcohol newydd a ddaeth i rym ym mis Awst 2023 wedi cael effaith ar y cynnydd mewn achosion o amnewid mewn gwirodydd[29].

5.5.36 Mae partneriaid yn nodi gostyngiad mewn adroddiadau am alcohol anghyfreithlon y tu hwnt i osgoi talu tollau. Mae dal i fod bylchau yn y gudd-wybodaeth o ran y ffactorau sy'n ysgogi'r gostyngiad.

28 Mae amnewidion caws yn cael eu cynhyrchu trwy gyfuno brasterau neu broteinau rhatach nad ydynt yn gynnyrch llaeth gyda system flas sy'n efelychu cynnyrch caws naturiol. Mae disodli braster llaeth yn golygu na ddylid ei ystyried yn "gaws" yn yr un modd â chaws llaeth.

29 Newidiadau i gyfraddau treth alcohol | GOV.UK

# 5.6 Camgyfleu

**Camgyfleu:**
Marchnata neu labelu cynnyrch i bortreadu ansawdd, diogelwch, budd, tarddiad neu oed y cynnyrch yn anghywir.

5.6.1 Mae camgyfleu fel arfer yn digwydd lle nad yw'n hawdd i'r cwsmer nodi a yw datganiad neu honiad a wneir ar ddeunydd pecynnu cynnyrch, neu fel honiad marchnata mewn perthynas â'r cynnyrch hwnnw, yn ddilys ac yn gywir.

5.6.2 Roedd adroddiadau yn 2020 yn nodi problem a oedd yn dod i'r amlwg yn ymwneud â chamgyfleu cynhyrchion â nodweddion anniriaethol ond dymunol (fel statws moesegol, neu les anifeiliaid uchel). Er bod y fath adroddiadau wedi gostwng yn ôl pob golwg yn 2023, mae'r thema dan sylw'n parhau.

5.6.3 Porc a dofednod oedd y mathau o fwyd y rhoddwyd gwybod amlaf fod eu tarddiad wedi'i gamgyfleu (er enghraifft, cig lleol a chig maes).

5.6.4 Er bod adroddiadau ar gamgyfleu yn cwmpasu ystod eang o fathau o gynhyrchion a throseddau, mae adroddiadau ar bob elfen arwahanol wedi bod yn gyfyngedig. Yn ôl cudd-wybodaeth 2023, labelu cig yn dwyllodrus fel cig halal neu gynhyrchu cig halal heb ardystiad oedd yr achosion o gamgyfleu mwyaf cyffredin.

## Camgyfleu ansawdd

5.6.5 Gan barhau â'r arsylwadau a wnaed yn asesiad 2020, mae achosion o gamgyfleu ansawdd yn digwydd ar draws sawl sector o'r diwydiant bwyd. Mae heriau o ran canfod y fath achosion yn cynnwys anawsterau mynd ati'n annibynnol i ddirnad ansawdd fel aelod o'r cyhoedd neu gwsmer busnes, a'r heriau mewn rhai meysydd gyda dulliau dadansoddi.

5.6.6 Mae cynhyrchion sydd â statws premiwm (a ddiffinnir yn yr asesiad hwn fel y rhai sy'n rhan o gynllun achrededig a ddiffiniwyd yn gyfreithiol, neu ddull cynhyrchu) yn arbennig o ddeniadol i'r rheiny sy'n dymuno cael budd ariannol o gamgyfleu ansawdd.

5.6.7 Mae adroddiadau wedi nodi cynhyrchion sydd wedi'u marchnata'n dwyllodrus ag enwau bwyd gwarchodedig. Er bod asesiad 2020 wedi amlygu problemau gyda rhai nwyddau rhyngwladol a oedd ar werth yn y DU (gan gynnwys gwin pefriog a chynhyrchion ham o'r Eidal), yn 2022 a 2023 roedd adroddiadau'n ymwneud yn bennaf â chamgyfleu cynhyrchion y DU â statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI).

5.6.8 O dan Ymgyrch OPSON XII[30] yn 2023, cynhaliwyd 74 o wiriadau enwau bwyd gwarchodedig gan awdurdodau. O'r deuddeg methiant, roedd chwech yn ymwneud â chynhyrchion y DU (a oedd yn cynnwys cig eidion Cymreig, cig oen Cymreig a phasteiod Cernywaidd). Roedd methiannau eraill yn cynnwys caws Feta, ham Parma ac amnewid cawsiau Eidalaidd wedi'u gratio (fel Parmigiano Reggiano a Grana Padano). Roedd y rhan fwyaf o fethiannau yn rhai lefel isel, mewn busnesau gwasanaethu bwyd.

5.6.9 O ystyried y gall cynhyrchion ag enwau bwyd gwarchodedig hawlio prisiau uwch a chyfran uwch o'r farchnad o gymharu â chynhyrchion confensiynol, mae'n debygol iawn y bydd y math hwn o gamgyfleu'n parhau.

5.6.10 Mae cig halal a chynhyrchion sydd â honiadau statws organig cyffredinol (ar y deunydd pecynnu a labelu) yn ymddangos yn amlwg mewn adroddiadau sy'n ymwneud â chamgyfleu ansawdd. Yn ystod yr argyfwng costau byw, mae adroddiadau hefyd wedi cynnwys cigoedd rhew sy'n cael eu dadmer a'u gwerthu fel pe baent yn ffres, lle mae cymhellion ariannol hefyd yn debygol o fod yn gysylltiedig â lleihau gwastraff bwyd a chostau gwaredu.

5.6.11 Mae camgyfleu cynhyrchion organig wedi'i nodi o fewn y cyfnod adrodd, ond nid ar raddfa fawr. Mae adroddiadau o'r math hwn yn bennaf yn dangos defnydd cyffredinol ac anawdurdodedig o eiriad a therminoleg organig, yn hytrach na defnyddio codau a logos cyrff rheoli organig ffug neu anawdurdodedig.

5.6.12 Nid yw'r adroddiadau'n dynodi twyll organig eang ar raddfa fawr yn y DU, er bod twyll gwerth miliynau o ddoleri wedi'i nodi mewn perthynas â chamgyfleu cynhyrchion organig[31] mewn symiau mawr y tu allan i'r DU. O ystyried graddfa'r troseddau hyn, a'r enillion ariannol a ddaw yn eu sgil, mae'n dal i fod yn bosibilrwydd realistig y gallai cynhyrchion sy'n cael eu marchnata ar gam fel rhai organig gael eu mewnforio i'r DU a'u prosesu ymhellach yma.

5.6.13 Mae adroddiadau lefel isel wedi nodi bod gwendidau mewn cynlluniau sicrwydd lle mae aelodaeth wedi dod i ben, gyda chyn-aelodau'n parhau i ddefnyddio hen ddeunydd pecynnu sy'n cynnwys logos a geiriad y cynllun, gan gamgyfleu eu nwyddau i bob pwrpas fel rhai o ansawdd gwarantedig, pan nad ydynt bellach wedi'u gwarantu'n swyddogol.

---

30 Menter ryngwladol flynyddol a arweinir gan Europol yw Ymgyrch OPSON sy'n targedu gwerthu bwyd a diod ffug sy'n is na'r safon. Mae'r ASB ac FSS yn cydlynu gweithgarwch o dan y faner hon yn rheolaidd. Cyhoeddodd Europol ganlyniadau OPSON XII ym mis Hydref 2023.

31 Cwmnïau o Dubai wedi'u cyhuddo o dwyll grawn organig | World Grain (world-grain.com)

5.6.14 Mae adroddiadau o Gymru a Lloegr wedi parhau i nodi cynhyrchion sy’n honni’n dwyllodrus eu bod yn bodloni safonau cynlluniau sicrwydd, gan gynnwys cig oen, porc a dofednod. Er bod amlder adrodd wedi bod yn isel, mae graddfa’r troseddu wedi cyfeirio at niferoedd sylweddol o dda byw. Mae’n debygol iawn bod gwendidau o fewn prosesau gwerthu da byw (yn ymwneud â phrawf dogfennol a chraffu ynghylch tarddiad a magu da byw) yn golygu nad yw achosion o gymysgu da byw gwarantedig a da byw heb eu gwarantu yn cael eu canfod.

5.6.15 Rydym yn parhau i gryfhau ein perthnasoedd cryf gyda’r cyrff sy’n gyfrifol am y cynlluniau sicrwydd hyn i wella ac ehangu ffrydiau gwybodaeth i reoleiddwyr.

5.6.16 Yn adroddiadau 2023, nodwyd ystod ehangach o wirodydd yr oedd eu hansawdd wedi’i gamgyfleu. Fodca wedi’i frandio oedd y gwirod a gafodd ei gamgyfleu amlaf. Mae bron yn sicr y bydd gwirodydd ffug (fodca’n arbennig) yn parhau i gael eu gwerthu mewn siopau cyfleustra yn y DU.

5.6.17 Mae dadansoddiad o gudd-wybodaeth a gwaith gweithredol yn yr Alban wedi dangos llwybrau llif nwyddau o alcohol ffug o’r UE.

5.6.18 Roedd adroddiadau yn 2023 yn parhau i dynnu sylw at win ffug o frandiau poblogaidd a werthir ledled y DU. Mae adroddiadau o’r math hwn wedi cynyddu ers asesiad 2020, wedi’u hysgogi yn ôl pob tebyg gan fwy o weithgarwch gan frandiau a llif gwell o gudd-wybodaeth o’r diwydiant.

5.6.19 Nododd canlyniadau samplu gwyliadwriaeth yr ASB ar gyfer 2022-23 broblemau cydymffurfio ynghylch cyfansoddiad olewau olewydd ‘extra-virgin’ a ‘virgin’ o gymharu â safonau cyfreithiol ar gyfer gwahanol gategorïau o olew olewydd. Er, mae’n bosib mai problemau storio a achosodd y problemau cyfansoddiadol ar gyfer dwy o’r pedair sampl anfoddhaol.

5.6.20 Gyda phrinder olew olewydd helaeth yn Ewrop, mae bron yn sicr y bydd camgyfleu ansawdd yn digwydd, gyda rhai cynhyrchion yn cael eu marchnata fel ‘extra-virgin’, ochr yn ochr â’r risgiau difwyno ac amnewid y cyfeiriwyd atynt yn gynharach.

## Camgyfleu gwlad tarddiad

5.6.21 Mae camgyfleu tarddiad yn golygu labelu bwyd gan nodi ar gam ei fod yn dod o wlad neu ranbarth penodol, neu wedi'i gynhyrchu'n lleol. Mae'r fethodoleg hon yn sicrhau mwy o elw ariannol, a gellir ei defnyddio i osgoi tariffau a rheolaethau mewnforio er mwyn cael mantais fasnachol.

5.6.22 Mae gwneud dewisiadau gwybodus o ran o ble mae bwyd yn dod wedi bod yn nodwedd allweddol wrth i bobl brynu bwyd, lle gellir cyfiawnhau prisiau uwch am nwyddau lleol neu nwyddau'r DU, neu rai o ardaloedd sydd â statws gwarchodedig. Gyda'r argyfwng costau byw presennol, mae'n debygol iawn na fydd tarddiad yn yrrwr mor ddylanwadol i ddefnyddwyr bellach, ond mae camgyfleu tarddiad Prydeinig wedi parhau i fod yn thema yn y gudd-wybodaeth. Nododd ymchwil gwyddorau cymdeithasol fod defnyddwyr yn pryderu'n fwy am ansawdd a diogelwch bwyd a fewnforir o dramor na bwyd a gynhyrchir yn y DU[32]. Mae ymchwil yr ASB hefyd wedi dangos bod busnesau bach a micro yn fwy pryderus ynghylch a yw bwyd sy'n cael ei gynhyrchu y tu allan i'r DU yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label (59%), o gymharu â bwyd a gynhyrchir yn y DU (29%)[33]. Bu sylw mawr yn y cyfryngau ddechrau 2023 am ymchwiliad yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd i'r math hwn o droseddu.

5.6.23 Asesir bod camgyfleu gwlad tarddiad bron yn sicr yn digwydd ar gyfer amrywiaeth o fathau o fwyd. Roedd y canlyniadau samplu a oedd ar gael ar gyfer 2023 yn dangos mai cig eidion a phorc oedd y cynhyrchion cig a gafodd eu camgyfleu amlaf, gydag adroddiadau hefyd yn cynnwys pysgod a llysiau.

5.6.24 Mae'n debygol bod camgyfleu gwlad tarddiad ar gyfer pysgod yn gysylltiedig â dymunoldeb gwlad tarddiad a bodloni gofynion cytundebol, yn ogystal ag mewn ymateb i gyfyngiadau masnachu. Nodwyd twyll cyn 2023, a hynny o ran camgyfleu gwlad tarddiad eog mwg fel cynnyrch o'r Alban.

5.6.25 Ym mis Mawrth 2022, gweithredodd y DU dariff ar fewnforion pysgod gwyn o Rwsia mewn ymateb i'r rhyfel yn Wcráin, ac ym mis Gorffennaf 2022 cyflwynodd dariff ychwanegol o 35% ar fewnforion bwyd môr. Mae'n bosibilrwydd realistig y gellid bod yn camgyfleu gwlad tarddiad pysgod gwyn wedi'i fewnforio o Rwsia, ond nodir hyn â lefel isel o hyder.

32 Arolwg Tracio Mewnwelediadau Defnyddwyr yr ASB, Ebrill – Mehefin 2024

33 Arolwg Tracio Busesau Bach a Micro yr ASB – sylwer nad yw'r ffigurau hyn, o ymatebion 2023, wedi'u cyhoeddi hyd yma.

## Camgyfleu pa mor ffres yw bwyd/dyddiadau parhad

5.6.26 Mae adrodd ar gamgyfleu dyddiadau neu ba mor ffres yw bwyd wedi canolbwyntio ar y ddau fygythiad canlynol:

- newid dyddiadau lladd ar gyfer cigoedd coch a chyw iâr yn anghyfreithlon
- ail-labelu ac ail-becynnu cig coch, dofednod ac wyau sydd wedi mynd heibio eu dyddiadau ‘defnyddio erbyn’

5.6.27 Mae’r arferion hyn yn galluogi neu’n cyflwyno dyddiadau parhad ffug yn uniongyrchol i gwsmeriaid, sydd bron yn sicr yn golygu mantais ariannol i’r busnesau bwyd. Gall ymestyn dyddiadau cig a dofednod achosi risgiau iechyd.

## Camgyfleu budd a/neu ddiogelwch

5.6.28 Mae camgyfleu budd a/neu ddiogelwch yn golygu honni ar gam fod gan gynnyrch effaith fanteisiol, neu ei fod yn ddiogel i’w fwyta gan bobl. Mae’r mathau hyn o gamgyfleu yn tueddu i gael eu targedu at gynulleidfaoedd penodol o ddefnyddwyr.

5.6.29 Er gwaethaf cynnydd mawr mewn adroddiadau am atchwanegiadau anghyfreithlon gyda honiadau di-sail ynghylch imiwnedd neu iechyd yn ystod y pandemig COVID-19, roedd adroddiadau ar dwyll bwyd o fewn atchwanegiadau anghyfreithlon yn ystod 2023 yn ddarniog. Fodd bynnag, nododd adroddiadau ehangach ar safonau bwyd faterion yn ymwneud â chynhwysion newydd a honiadau di-sail o ran iechyd.

5.6.30 Mae adroddiadau wedi parhau i amlygu bygythiad a phoblogrwydd cynyddol modwleiddwyr derbynwyr androgen detholus (SARMs), sef bwyd newydd heb ei awdurododi. Mae SARMs fel arfer yn gysylltiedig ag adeiladu cyhyrau ac maent ar werth yn eang yn y DU. Nid yw sgil-effeithiau SARMs yn gwbl hysbys eto, ac mae gwerthu cynhyrchion o’r fath yn anghyfreithlon o dan reoliadau sy’n llywodraethu bwydydd newydd.

5.6.31 Yn ystod 2023, roedd DNP[34] yn parhau i gael ei farchnata a’i werthu’n rhyngwladol fel cymhorthydd colli pwysau, gan gynnwys i ddefnyddwyr yn y DU. Yn y DU, cafodd DNP ei ailddosbarthu’n wenwyn ym mis Hydref 2023, ac mae bellach yn cael ei reoleiddio gan Ddeddf Gwenwynau 1972, ac mae’n dod yn bennaf o dan gylch gwaith yr heddlu.

34 Cynnwys ar food.gov.uk am 2,4-dinitrophenol (DNP)

## Astudiaeth achos

Yn yr achos cyntaf o'i fath i fod yn destun erlyniad yn yr Alban, llediodd dyn yn euog o gyflenwi'r cyhoedd yn feius ac yn ddiofal â'r cemegyn gwenwynig DNP i'w fwyta gan bobl. Profodd yr ymchwiliad ar y cyd rhwng Cyngor Falkirk a Heddlu'r Alban, a arweiniwyd gan SFCIU ac a gwblhawyd yn 2022, fod yr unigolyn rhwng mis Mai 2017 a mis Hydref 2021 wedi cyflenwi cwsmeriaid yn y DU ac yn fyd-eang – yn UDA, Asia ac Awstralia – â hyd at 10,000 o gapsiwlau DNP y mis. Yn 2023, cafodd ei ddedfrydu i bedair blynedd o garchar, wedi'i ostwng i dair blynedd ar apêl.

5.6.32 Mae lefelau adrodd ar Hydoddiant Mwynol Gwyrthiol (MMS)[35] wedi aros yn isel iawn, gydag absenoldeb marchnata a gwerthiannau MMS ar y we agored wedi'u nodi ar-lein eleni. Mae'n debygol bod defnydd o MMS neu unrhyw wybodaeth anghywir am ei fanteision a'i ddiogelwch wedi symud i grwpiau caeedig ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda gwerthiannau cysylltiedig yn digwydd mewn lleoliadau ar-lein mwy cudd.

# 5.7 Twyll Dogfennau

**Twyll Dogfennau:**
defnyddio dogfennau ffug neu rai wedi'u camgyfleu er mwyn gwerthu, marchnata neu dystio dros gynnyrch twyllodrus neu gynnyrch is-safonol.

5.7.1 Mae'r rhai sy'n dymuno cyflawni troseddau bwyd yn ei hanfod yn defnyddio dau brif fath o ddogfen dwyllodrus i sicrhau mantais fasnachol neu ariannol, sef:

- dogfennau a gynhyrchir i ddilysu tarddiad, ansawdd neu natur nwydd yn anghywir
- dogfennaeth gyfreithlon wedi'i llenwi â gwybodaeth ffug i hwyluso llif masnach

5.7.2 Mae twyll dogfennau yn parhau i gael ei nodi o fewn masnach nwyddau sydd fel arall yn ddiwerth, fel anifeiliaid sâl sy'n anaddas ar gyfer y gadwyn fwyd neu fwyd anifeiliaid, pysgod a laniwyd sydd dros y cwota neu ABP sy'n destun gwaredu. Mae lefel y soffistigeiddrwydd o fewn twyll dogfennau yn amrywio.

35 Cynnwys ar food.gov.uk am hydoddiant mwynol gwyrthiol (MMS) a hydoddiant sodiwm clorit

## Astudiaeth achos

Ers mis Hydref 2020, mae'r NFCU wedi cefnogi cydweithwyr yn yr ASB a Heddlu Gogledd Cymru i ymchwilio i ddargyfeiriad anghyfreithlon o gwerth £318 mil o gyw iâr a gafodd ei ddwyn o ffatri dofednod fawr. Gwerthwyd y rhain i gwmni dofednod arall, wedi'i hwyluso gan nodiadau dosbarthu ffug a oedd yn galluogi symud y cig i'r gadwyn fwyd ddynol. Ym mis Chwefror 2024, cafwyd cyfarwyddwr y cwmni dofednod yn euog o gaffael eiddo troseddol a chafodd ddedfryd o dros bedair blynedd dan glo. Rhoddwyd dedfrydau gohiriedig i ddau o weithwyr y ffatri dofednod am dwyll drwy gamddefnyddio eu swyddi ynghyd ag oriau o waith di-dâl i'w gyflawni.

5.7.3 Mae'r DU yn parhau i arsylwi ar ymdrechion i fewnforio cynhyrchion bwyd lle defnyddir dogfennau wedi'u ffugio neu nodau iechyd i hwyluso mynediad ar draws Safleoedd Rheolaethau'r Ffin, gan gamarwain awdurdodau o ran gwir natur llwythi.

5.7.4 Er nad yw mewnforio cynhyrchion wedi'u camddatgan yn fygythiad newydd i'r DU, mae'r arferiad yn parhau i beri risg sylweddol i iechyd defnyddwyr y DU ac iechyd anifeiliaid trwy osgoi rheolaethau swyddogol a gynlluniwyd i gadw bwyd a bwyd anifeiliaid yn ddiogel a dilys, sy'n faes cyfrifoldeb Defra. Un risg o'r fath yw'r posibilrwydd o drosglwyddo Clwy Affricanaidd y Moch (ASF) i foch yn y DU drwy gynhyrchion porc sy'n cario'r feirws. Cyhoeddwyd adroddiad gan Defra ym mis Mehefin 2024[36], ac roedd hwn yn asesu bod risg uchel o ASF yn cyrraedd y DU drwy'r llwybrau a wnaed gan bobl a thrwy symud cynhyrchion moch sy'n dod o anifeiliaid. Mae'r mater hwn yn rhan o Gofrestr Risg Genedlaethol y DU[37].

5.7.5 Amlygodd adroddiadau yn 2023 achosion o atafaelu mewn porthladdoedd gynhyrchion porc a chyw iâr ffres ac wedi'u rhewi, a chynhyrchion anifeiliaid eraill a fewnforiwyd yn anghyfreithlon sy'n tarddu o wledydd Dwyrain Ewrop lle roedd achosion o ASF wedi'u nodi. Mae Awdurdod Iechyd Porthladd Dover a Llu'r Ffiniau wedi atafaelu symiau sylweddol o borc anghyfreithlon ers i reolaethau llymach gael eu rhoi ar waith ym mis Medi 2022[38]. Mae bylchau yn y gudd-wybodaeth o ran unrhyw ddosbarthiadau cydgysylltiedig ar raddfa fawr yn y DU i ateb y galw sy'n cael eu hwyluso gan arferion twyllodrus.

---

36 Asesiad Defra wedi'i ddiweddaru ar achosion o Glwy Affricanaidd y Moch, Mehefin 2024

37 Cofrestr Risg Genedlaethol – Clefyd anifeiliaid – brigiad mawr o achosion o glwy Affricanaidd y moch

38 Pwyllgor Defra yn mynegi pryderon mawr am fioddiogelwch wrth i drefn newydd ar gyfer ffiniau Prydain Fawr ddod i rym – Pwyllgorau – Senedd y DU

5.7.6 Roedd cytundeb Fframwaith Windsor, ochr yn ochr â sicrwydd mynediad dirwystr i farchnad Prydain Fawr ar gyfer Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon yn 2023 yn golygu bod llif masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr yn gweithredu heb reolaeth weinyddol. Creodd hyn y risg bosib y byddai nwyddau nad ydynt yn dod o Ogledd Iwerddon hefyd yn cael eu symud drwy'r llwybr hwn. Mae hyn ochr yn ochr â chymhelliant sy'n bodoli eisoes, o ganlyniad i drefniadau y Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau a roddwyd ar waith yn ddiweddar, i droseddwyr gamddatgan yn bwrpasol lwythi risg uchel fel rhai risg isel er mwyn sicrhau mantais fasnachol neu ariannol trwy glirio cyflymach, a chyda llai o debygolrwydd y bydd rheolaethau swyddogol yn cael eu gweithredu.

5.7.7 Yn dilyn cyhoeddi Papur Gorchymyn Diogelu'r Undeb[39], cafwyd diwygiad deddfwriaethol i'r diffiniad cyfreithiol o nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid cymwys o Ogledd Iwerddon at ddibenion rheolaethau iechydol a ffytoiechydol (SPS). Mae hyn yn golygu y bydd sefydliadau bwyd neu fwyd anifeiliaid sydd wedi'u cofrestru neu eu cymeradwyo yng Ngogledd Iwerddon bellach yn uniongyrchol gysylltiedig â'r weithred o anfon nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon, p'un a yw'r nwyddau'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr yn uniongyrchol neu drwy Weriniaeth Iwerddon. Mae canllawiau'n cyfyngu ar y mathau derbyniol o brawf o anfon o Ogledd Iwerddon. Mae'r diffiniad tynnach hwn, ochr yn ochr ag ymrwymiadau deddfwriaethol i eithrio'n benodol nwyddau sy'n symud i Ogledd Iwerddon o'r tu allan i'r DU at ddibenion ennill statws cymhwyso, yn lleihau'r cyfle i fusnesau plât pres[40] gael eu sefydlu yng Ngogledd Iwerddon er mwyn cam-drin trefniadau mynediad dirwystr. Fodd bynnag, mae'r risg y bydd busnesau'n datgan nwyddau ar gam fel nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon yn parhau, ac felly hefyd y risg o gamddatgan posib nwyddau sy'n symud heb hawlio statws nwyddau cymwys o Ogledd Iwerddon.

5.7.8 Mae cudd-wybodaeth am basbortau ceffylau wedi'u ffugio wedi gostwng yn sylweddol ers asesiad 2020. Mae hyn yn debygol oherwydd bod nifer gyfyngedig o safleoedd sy'n lladd ceffylau yn weithredol, y cymhlethdodau cynyddol sy'n gysylltiedig ag allforio i'r UE, a hefyd y gwaharddiad ym mis Ionawr 2022 ym Mhrydain rhag lladd ceffylau rasio sydd wedi ymddeol er mwyn i bobl eu bwyta.

5.7.9 Yn 2024, disgwylir y bydd system adnabod ar-lein yn cael ei rhoi ar waith i ddiweddaru'r model presennol o olrhain ceffylau trwy ladd-dai, gan leihau ymhellach y cyfleoedd ar gyfer twyll sy'n ymwneud â gwiriadau adnabod ceffylau.


---

39 Diogelu'r Undeb – papur gorchymyn | GOV.UK

40 Mae'r term hwn yn cyfeirio at gwmni sydd wedi'i gofrestru i gyfeiriad ond nad oes ganddo bresenoldeb ffisegol yno.

5.7.10 Mae'r tabl canlynol yn rhestru rhai mathau allweddol o dwyll dogfennau a'n hasesiad cysylltiedig. Ystyrir bod yr holl enghreifftiau a ddarparwyd yn parhau i fod yn fygythiadau sy'n wynebu'r dyfodol, ond gwelwyd tystiolaeth ohonynt i wahanol raddau yn ystod y cyfnod adrodd.

| Math o ddogfen | Budd arfaethedig o'i defnyddio | Enghreifftiau a nodwyd |
|---|---|---|
| **Tystysgrifau iechyd allforio** | Ffordd o osgoi gwiriadau iechyd cyn-allforio a/neu reolaethau mewnforio yr UE ar lwythi sy'n cael eu mewnforio.<br>Camgynrychioli cynhyrchion fel rhai sydd yn dod o'r DU, neu gynhyrchion o'r UE fel rhai o wlad arall, i gynyddu gwerth cynnyrch neu guddio ei darddiad. | Gostyngiad sylweddol mewn adrodd am ddogfennau cofrestru pysgod cregyn a thystysgrifau iechyd allforio sydd wedi'u ffugio.<br>Lefelau isel o adrodd ar dystysgrifau iechyd wedi'u ffugio ar gyfer ceffylau er mwyn eu hallforio heb fod â'r gallu i'w holrhain.<br>Lefelau isel o adrodd ar dystysgrifau iechyd anifeiliaid wedi'u llofnodi gan filfeddygon nad ydynt wedi'u cofrestru.<br>Adroddiadau ynysig ar SARMs a fewnforir trwy ddefnyddio labeli a thystysgrifau allforio ffug. |
| **Datganiadau tollau** | Mewnforio cynhyrchion bwyd sydd wedi'u cyfyngu a/neu eu gwahardd trwy ffugio datganiadau tollau. | Fel y nodwyd yn 2020, defnyddir datganiadau tollau ffug neu anghywir i hwyluso mewnforio nwyddau wedi'u gwahardd yn anghyfreithlon.<br>Mae alcohol heb y tollau wedi'u talu hefyd yn rhan o'r adroddiadau.<br>Mae cudd-wybodaeth ddiweddar yn cadarnhau bod DNP yn cyrraedd y DU drwy gamddatgan cynnwys yn fwriadol ar ffurflenni tollau ar becynnau post, gyda'r mwyafrif yn cael eu hallforio o Tsieina. |
| **Rhifau cymeradwyo a nodau iechyd** | Rhoi safonau hylendid a diogelwch ffug ar gynhyrchion. | Adroddiadau lefel isel ar ddefnyddio rhifau cymeradwyo ffug a rhai a gymeradwywyd yn flaenorol.<br>Mae nodau iechyd masnachol ffug ar gynhyrchion porc o Rwmania yn debygol o fod mewn ymateb i gryfhau targedau ar fewnforion personol yn 2022/3.<br>Mae cudd-wybodaeth lefel isel yn dynodi rhifau cymeradwyo ffug yr UE sy'n hwyluso symud ABP categori 3 i gadwyn fwyd pobl y DU. |

| Math o ddogfen | Budd arfaethedig o'i defnyddio | Enghreifftiau a nodwyd |
|---|---|---|
| **Tystysgrifau dal/glanio**  | Hwyluso mynediad pysgod neu bysgod cregyn a gynaeafwyd yn anghyfreithlon a/neu a ddosbarthwyd yn anghywir i gadwyni cyflenwi cyfreithlon. | Yn 2023 daeth adroddiadau i law am fusnesau a oedd, rhwng 2017 a 2022, yn cynyddu'r pysgod cregyn a gynaeafwyd yn gyfreithlon ganddynt gyda physgod cregyn a gasglwyd yn anghyfreithlon wrth brosesu. Defnyddiwyd gwaith papur/cofnodion ffug i hwyluso'r troseddoldeb hwn. |
| **Nodi anifeiliaid yn anghywir neu ailbennu math o anifail**  | Hwyluso'r broses o symud da byw sydd wedi'u cyfyngu, wedi'u dwyn neu sy'n anhysbys, a rhoi da byw sydd wedi'u dwyn a/neu'n anaddas mewn cadwyni cyflenwi cyfreithlon. | Lefelau adrodd isel ar anghysondebau ac arferion gwael o ran pasbortau ceffylau a dogfennaeth cludo.<br>Mae'n parhau'n debygol iawn y rhoddir hunaniaethau newydd i wartheg sydd wedi'u dwyn er mwyn iddynt allu mynd i mewn i ladd-dai cyfreithlon (neu y cânt eu lladd yn anghyfreithlon a'u rhoi yn y gadwyn fwyd trwy ddefnyddio dogfennau twyllodrus eraill).<br>Mae systemau adnabod gwartheg yn debygol o fod yn agored i symudiadau a marwolaethau heb eu datgan yn fwriadol, lle mae posibilrwydd realistig y gall tagiau clust gael eu tynnu a'u newid.<br>Cafwyd adroddiadau am newid ID gwartheg yng Nghymru gydag erlyniadau cysylltiedig. |
| **Ardystiad gan y diwydiant a labordai**  | Cynyddu gwerth a phris marchnad cynhyrchion neu roi statws diogelwch neu ddilysrwydd yn seiliedig ar ddadansoddiad labordy. | Adroddiadau darniog ar dystysgrifau labordai ffug yn ymwneud ag awdurdodi bwyd newydd, a chanlyniadau profion salmonela boddhaol wedi'u ffugio mewn perthynas ag ieir byw mewn heidiau sy'n cynhyrchu cig ac wyau maes (arfer a fu'n destun ymyrraeth reoleiddiol lwyddiannus ers hynny). |

| Math o ddogfen | Budd arfaethedig o'i defnyddio | Enghreifftiau a nodwyd |
|---|---|---|
| **Dogfennaeth statws premiwm** ★★★★★ | Cynyddu gwerth a phris marchnad cynhyrchion trwy ddefnyddio achrediadau neu honiadau statws premiwm. | Mae adroddiadau wedi dod i law'r Uned am ddefnydd twyllodrus o honiadau statws premiwm, fel labelu halal a maes (*free-range*). Mae'n debygol bod dogfennaeth wedi'i ffugio yn galluogi camgyfleu o'r fath. Fodd bynnag, nid oes llawer o fanylion am rôl dogfennau mewn adroddiadau.<br>Mae adroddiadau darniog yn dynodi camddefnyddio codau corff rheoli organig Prydain Fawr ar gynnyrch confensiynol yn UDA.<br>Adroddiadau lefel isel ac ynysig yn ymwneud â rôl dogfennau wedi'u ffugio a gwendidau mewn systemau wrth werthu defaid heb eu gwarantu fel rhai wedi'u gwarantu. |

# 5.8 Bygythiad y dyfodol

5.8.1 Rhagwelir y bydd nifer o'r materion a amlygwyd fel ffactorau cyffredinol cyfredol yn cael effaith barhaus ar droseddau bwyd yn ystod y 12-24 mis nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Tarfu ar y gadwyn gyflenwi** – disgwylir i'r dirwedd tymor canolig adlewyrchu'r dirwedd bresennol o ran cynnydd yn amlder digwyddiadau tywydd eithafol a thensiynau geowleidyddol byd-eang. Lle gall cyfansoddion bwyd a bwyd anifeiliaid domestig a byd-eang ddod yn sydyn iawn yn fwy prin, yn anhygyrch neu beidio â bod wedi'u caniatáu ar farchnad y DU, ac os bydd cadwyni cyflenwi amgen yn methu â chymryd y baich, bydd gwyliadwriaeth i dwyll o fewn cadwyni cyflenwi yr effeithir arnynt yn parhau i fod yn bwysig i'r diwydiant ac awdurdodau cymwys fel ei gilydd. O ystyried bod y ffactorau hyn yn newidiol, dylem gynnal ymwybyddiaeth o sefyllfaoedd yn y maes hwn.
- **Adnoddau awdurdodau lleol** – mae'r data sydd ar gael i ni ynglŷn â'r gostyngiad mewn adnoddau awdurdodau lleol yn peri pryder mawr. Bydd angen i awdurdodau lleol flaenoriaethu adnoddau ar sail risgiau, a allai arwain at flaenoriaethu materion diogelwch bwyd dros faterion ansawdd neu ddilysrwydd. Gyda llai o swyddogion ar gael i gynnal arolygiadau, bydd llai o gyfle i gasglu cudd-wybodaeth. Ddiwedd 2023, roedd y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) yn rhagweld y bydd angen i 1 o bob 5 cyngor yn Lloegr gyflwyno hysbysiad Adran 114 yn 2024, gan ddatgan methdaliad. Mae'r pwysau ariannol parhaus hyn yn debygol o gynyddu'r pwysau ar wasanaethau bwyd awdurdodau lleol ymhellach.

Er na all yr ASB ymyrryd o ran sut y caiff awdurdodau lleol eu hariannu, mae wedi sefydlu prosiect i ystyried sut y gall gefnogi awdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud ag adnoddau[41].

Newid cadarnhaol pellach yn y dirwedd hon yw proses barhaus yr ASB o gyflwyno model newydd ar gyfer awdurdodau lleol ar draws Lloegr a Gogledd Iwerddon i reoli safonau bwyd. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i fabwysiadu dull arolygu sy'n fwy seiliedig ar risg ac sy'n cael ei yrru gan gudd-wybodaeth, ac mae'n cynnwys rhaglen samplu dan gyfarwyddyd, a arweinir gan gudd-wybodaeth, mewn perthynas â phroblemau o ran safonau. Bydd y model hwn yn cael ei gyflwyno'n raddol, ac roedd disgwyl iddo ddechrau ym mis Ebrill 2024. Mae'r sail ar gyfer y model wedi'i nodi yn y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer y ddwy wlad, fel y'u gosodwyd ym mis Mehefin a mis Mai 2023 yn y drefn honno.

- **Trefniadau newydd ar y ffiniau –** mae'r ASB yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y llywodraeth ar y maes hwn, ac yn ystyried yn rhagweithiol unrhyw risgiau o ran twyll bwyd sy'n datblygu, gan ganolbwyntio ar gamddatgan cynhyrchion, mathau o gynhyrchion, lefel risg neu statws yn fwriadol, ac ar benderfyniadau llwybro bwriadol ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn. Ar ôl canfod bod y gweithgareddau hyn yn digwydd, mae Defra wedi bod yn ymgysylltu â busnesau i'w hatal.
- **Pwysau economaidd parhaus ar fusnesau a defnyddwyr –** asesir ei bod yn debygol y bydd defnyddwyr yn parhau i gael eu denu at gynigion cost is yn y cyfnod hyd at 2026. Gallai hyn gynnwys cynhyrchion gan fusnesau bwyd heb eu cofrestru drwy lwybrau gwerthu anghonfensiynol, gan gynnwys gwerthu bwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae posibilrwydd realistig y bydd rhai pobl yn blaenoriaethu fforddiadwyedd ac argaeledd dros ansawdd ac olrheiniadwyedd. Mae pwysau costau parhaus ar fusnesau'n debygol o barhau i sbarduno arferion twyllodrus gan rai.

5.8.2 Mae materion ychwanegol a nodwyd yn cynnwys:

- Disgwylir i ddatblygiadau mewn **technolegau dilysrwydd bwyd** gyflwyno cyfleoedd pellach i'r diwydiant a rheoleiddwyr sicrhau ansawdd, cyfansoddiad a

41 Bydd yr ASB yn gweithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff proffesiynol, yn ogystal ag yn uniongyrchol ag awdurdodau lleol, er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau i recriwtio a chadw swyddogion bwyd a bwyd anifeiliaid cymwys ac awdurdodedig. Hyd yma, mae'r ASB wedi gweithio gyda Sefydliad Siartredig Safonau Masnach a Chymdeithas y Prif Swyddogion Safonau Masnach i gymeradwyo prentisiaeth Safonau Masnach Lefel 6, gydag 87 o brentisiaid newydd yn dechrau astudio tuag at swyddi arbenigol ym maes bwyd a bwyd anifeiliaid ers mis Mai 2023.

tharddiad y cynhyrchion a roddir ar farchnad y DU. Fodd bynnag, mae'n bosib y caiff y cyfleoedd hyn eu gwrthbwyso gan heriau ariannol sy'n effeithio ar ba mor helaeth y gellir manteisio ar y datblygiadau hyn.

- Nodir effaith debygol **newidiadau deddfwriaethol diweddar a newidiadau sydd i ddod**. Mae'r rhain yn cynnwys ychwanegu DNP at Ddeddf Gwenwynau 1972 yn ddiweddar, sy'n golygu bod y bygythiad yn cael ei reoli'n fwy priodol gan eraill. Yn ddiweddar, mae Defra wedi ymgynghori ar newidiadau i labeli bwyd a allai osod gofynion newydd ar fusnesau bwyd ac, o ganlyniad, achosi troseddau newydd os na chaiff y gofynion eu parchu.
- O ran **cynaliadwyedd**, mae ystyriaethau'r dyfodol yn cynnwys deddfwriaeth yn y DU ac yn yr UE sy'n ymwneud â tharddiad rhai deunyddiau hanfodol (fel Rheoliadau Nwyddau sy'n Risg i Goedwigoedd y DU) a hefyd pwysigrwydd parhaus sicrhau bod honiadau ynghylch cynaliadwyedd yn gywir ac yn ddibynadwy. Camgyfleu tarddiad cynhwysion yw'r risg allweddol yn y maes hwn.
- Yn asesiad 2020, gwnaethom ragweld gostyngiad yn yr amser rhwng cynnyrch newydd yn cyrraedd y farchnad a canfod bod galw mawr amdano, yn bennaf oherwydd poblogrwydd **dylanwadwyr ar y cyfryngau cymdeithasol**. Yn y cyfnod hyd at 2026, asesir ei bod bron yn sicr y bydd dylanwadwyr yn parhau i lywio tueddiadau bwyd yn y DU, gyda chynnydd cysylltiedig mewn cynhyrchion ffug a chynhyrchion wedi'u hamnewid er mwyn ateb y galw.
- Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am **gynhyrchion bwyd a ffefrir yn ddiwylliannol** nad ydynt yn cael eu bwyta'n draddodiadol (neu eu cynhyrchu'n gyfreithlon) yn y DU yn debygol iawn o arwain at barhad, neu dwf, llwybrau cyflenwi anghonfensiynol ac anghyfreithlon.

5.8.3 Pan fyddwn yn ystyried cyfuniad o'r ffactorau hyn, mae posibilrwydd realistig y bydd risgiau newydd neu helaethach o droseddau bwyd yn ystod y 12 i 24 mis nesaf, a bydd hefyd rhai heriau pellach o ran canfod a lliniaru'r rhain. Bydd yn bwysig mynd i'r afael â'r heriau hyn ar y cyd ac yn rhagweithiol.

# 5.9 Argymhellion

5.9.1 Trwy ein gwaith yn y dyfodol, rydym yn bwriadu:

- defnyddio'r asesiad hwn i gytuno ar strategaethau rheoli priodol yn seiliedig ar y darlun o ran cudd-wybodaeth a'r bygythiadau presennol ac yn y dyfodol sydd wedi'u nodi
- gweithredu dulliau cyfannol o fynd i'r afael â'r materion hyn sydd â blaenoriaeth, gan sicrhau bod atal troseddau bwyd wedi'i ymgorffori'n llwyr yn y gwaith hwn
- chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar feysydd bygythiad sy'n peri pryder ar y cyd, gan gynnwys ynghylch risgiau a nodwyd wrth sganio'r gorwel a mentrau gweithredol rhagweithiol
- parhau i gydnabod pwysigrwydd perthnasoedd rhanddeiliaid effeithiol, cyd-gefnogol â chyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan roi ystyriaeth weithredol i rannu gwybodaeth yn well
- sicrhau bod bygythiadau sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn trefniadau ar y ffiniau a tharfu ar y gadwyn gyflenwi yn cael eu deall ac yr ymatebir iddynt yn briodol

# 5.10 Y camau nesaf

5.10.1 Mae'r asesiad hwn yn dangos pa mor eang a chymhleth yw troseddau bwyd, yr hyn sy'n cymell symud i ffwrdd o arferion sy'n cydymffurfio o fewn rheolaethau swyddogol i droseddoldeb, a'r ffaith bod sawl ffurf wahanol i fod yn agored i dwyll. Mae'r ystod o ddulliau troseddau bwyd yn achosi lefelau gwahanol o niwed yn y DU.

5.10.2 Gallwn ni lunio barn ynghylch pa agweddau ar y bygythiad o droseddau bwyd sy'n haeddu'r sylw mwyaf yn seiliedig ar ein dealltwriaeth gyfredol o'r dirwedd hon, a blaenoriaethau strategol y ddwy Uned.

5.10.3 Byddwn yn gweithio i roi'r argymhellion uchod ar waith. Byddwn yn cynnal ymwybyddiaeth sefyllfaol o'r darlun o ran cudd-wybodaeth. Byddwn hefyd yn meithrin ac yn cryfhau perthnasoedd ar draws y sector bwyd a diod, ac yn cynllunio gweithgarwch strategol i leihau'r bygythiad y mae troseddau bwyd yn ei beri i gadwyn gyflenwi'r DU.

© Yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban 2024